



Coleg Gŵyr Abertawe
Gower College Swansea

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

Ar gyfer y Flwyddyn yn Diweddu

31 Gorffennaf 2023

Cynnwys

Personél Rheoli	2
Adroddiad y Corff Llywodraethu	3
Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol	23
Datganiad ar Reoleidd-dra, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth	32
Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth	33
Adroddiad Archwilwyr Annibynnol	35
Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Incwm Cynhwysfawr	39
Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Newidiadau Cronfeydd Wrth Gefn	40
Mantolenni	41
Datganiad Cyfunol o Lif Arian	42
Nodiadau ar y Cyfrifon	43

Personél Rheoli

Personél Rheoli Allweddol

Diffinnir personél rheoli allweddol fel aelodau o Dîm Arweinyddiaeth y Coleg ac fe'u cynrychiolwyd gan y canlynol yn 2022/23:

- Mark Jones, Pennaeth a Phrif Swyddog Gweithredol; Swyddog Cyfrifyddu
- Nikki Neale, Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd
- Paul Kift, Cyfarwyddwr Sgiliau a Datblygu Busnes
- Sarah King, Cyfarwyddwr AD
- Mike Glover, Cyfarwyddwr Cyllid

Bwrdd y Llywodraethwyr

Mae rhestr lawn o'r Llywodraethwyr i'w gweld ar dudalennau 24-25 o'r datganiadau ariannol hyn. Roedd Mrs S Barron wedi gweithredu fel Clerc y Gorfforaeth drwy'r cyfnod. Ar ôl diwedd y flwyddyn, ymdeolodd Mrs S Barron a chafodd Mrs A Kirk ei phenodi fel Clerc y Gorfforaeth.

Cynghorwyr Proffesiynol

Archwilydd datganiadau ariannol a chyfrifwyr adrodd:

Mazars LLP
90 Victoria Street
Bristol
BS1 6DP

Cyfreithwyr:

Blake Morgan
Parc Anturiaeth Abertawe
Castle Court
Abertawe
SA7 9LZ

Archwilwyr Mewnol:

TIAA Limited
53 – 55 Gosport Business Centre
Aerodrome Road
Gosport
PO13 0FQ

Bancwyr:

HSBC
4A Vaughan Street
Llanelli
SA15 3TY

Barclays
1-3 Windsor Place
Caerdydd
CF10 3BX

A droddiad y Corff Llywodraethu

Mae'r aelodau'n cyflwyno eu hadroddiad a'r datganiadau ariannol wedi'u harchwilio am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023.

Statws cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal Coleg Gŵyr Abertawe. Mae'r Coleg yn elusen sydd wedi'i heithrio o dan Ran 3 Deddf Elusennau 2011.

Budd Cyhoeddus

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn elusen sydd wedi'i heithrio o dan Ran 3 Deddf Elusennau 2011 ac fe'i rheoleiddir gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u nodi ar dudalennau 24 - 25.

Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Corff Llywodraethu wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus ac yn arbennig ei ganllawiau atodol ar hyrwyddo addysg. Mae'r canllawiau yn amlinellu'r gofyniad bod rhaid i bob sefydliad a hoffai gael ei gydnabod fel elusen ddangos, yn benodol, bod ei nodau er budd y cyhoedd.

Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r Coleg yn darparu'r buddion cyhoeddus adnabyddadwy canlynol trwy hyrwyddo addysg:

- Addysgu o safon uchel
- Cysylltiadau â phrifysgolion yn y DU er mwyn hybu cyfleoedd addysg uwch
- Ehangu cyfranogiad a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol
- Hanes cyflogaeth gwych i fyfyrwyr
- Systemau cymorth cadarn i fyfyrwyr
- Cysylltiadau â chyflogwyr, diwydiant a masnach.

Cefndir

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn gweithredu ar draws dinas Abertawe ar nifer o safleoedd: Campws Gorseinon, Campws Tycoch, Campws Hill House, Campws Llwyn y Bryn, Plas Sgeti a Chanolfan Hyfforddiant CGA (Llys Jiwbilî), yn ogystal â Hyb Cyflogadwyedd Ffordd y Brenin. Mae nifer fawr o fyfyrwyr o'r tu allan i'r ddinas yn dod i'r Coleg, ac mae rhai ohonynt yn teithio cryn bellter i wneud hynny.

Ein nod yma yw cynnig cyfleoedd dilyniant o lefel astudio mynediad i israddedig gyda lefelau priodol o gymorth i fyfyrwyr beth bynnag fo'u man cychwyn. Rydym yn gadarn ein penderfyniad i ddilyn polisiau'r Adran Addysg a Sgiliau, gan sicrhau bod addysg alwedigaethol yn arwain at ganlyniadau gwerth chweil.

Ein Cenhadaeth:

“Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn cael ei barchu a’i werthfawrogi am ddarparu addysg a hyfforddiant o’r safon uchaf sy’n ysbrydoli a chefnogi ein holl ddysgwyr i gyflawni eu llawn botensial”

Ein Gweledigaeth:

“Arwain y ffordd ym maes addysg a hyfforddiant i’r holl ddysgwyr, cyflogwyr a’r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ”

Ein Ffocws:

“Mae’r Coleg wedi nodi pum cyfeiriad strategol ‘craidd’ a nodau cysylltiedig a fydd yn cefnogi’r Coleg i gyflawni ei weledigaeth a’i genhadaeth.

Ffocws ar ein dysgwyr a’n cymunedau.

Perfformiwr o’r radd flaenaf.

Arweinydd yn y sector.

Cyflogwr o ddewis.

Sefydliad cynaliadwy.

Gweithredu cynllun strategol

Ym mis Ionawr 2021, mabwysiadodd y Coleg gynllun strategol ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2024.

Mae'r cynllun strategol yn cynnwys targedau'n ymwneud ag Ansawdd, Myfyrwyr, Cofrestru, Cyllid ac Ystadau, Staff a Rhagoriaeth. Gosodir y targedau mewn termau absoliwt ac mewn nifer o dargedau, cyfeirir at berfformiad perthnasol y Coleg yng nghyd-destun colegau AB eraill.

Yn ogystal, ategir y cynllun strategol gan Gynllun Gweithredol Blynyddol mwy manwl ac yna fe'i cysylltir â chynlluniau adrannol.

Mae'r Gorfforaeth yn monitro perfformiad y Coleg yn erbyn y cynlluniau hyn. Caiff y cynlluniau eu hadolygu a'u diweddarau bob blwyddyn. Mae cyfres o ddangosyddion perfformiad wedi cael eu cytuno i fonitro gweithrediad llwyddiannus y polisiau.

Mae'r Coleg yn ymroddedig i arsylwi ar bwysigrwydd mesurau a dangosyddion sector a data a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru sy'n ystyried mesurau fel cyfraddau llwyddo.

Mae'n ofynnol i'r Coleg gwblhau'r Cofnod Cyllid blynyddol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r Coleg yn dadansoddi ei berfformiad ariannol yng nghyd-destun colegau AB eraill ac yn defnyddio'r wybodaeth feincnodi i osod targedau yn y dyfodol. Mae'r Coleg yn defnyddio'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i oleuo ei adolygiad o'i lechyd Ariannol. Mae'r Coleg wedi hunanasesu bod ganddo iechyd ariannol "Categori A". Diffiniad Categori A Llywodraeth Cymru yw: "Mae sefyllfa ariannol y sefydliad a'i strategaeth ariannol yn cefnogi'r cynllun sefydliadol yn llawn".

Pobl

Mae'r Coleg yn cyflogi 1,107 o bobl (cyfrif pennau ar gyfartaledd) y mae 617 ohonynt mewn adrannau addysgu. Mae 2 o staff eraill (cyfrif pennau ar gyfartaledd) yn cael eu cyflogi yn Track Training Limited.

Enw da

Mae gan y Coleg enw da'n genedlaethol ac yn lleol mewn perthynas ag amrywiaeth y ddarpariaeth y mae'n ei chynnig ac ansawdd y dysgu ac addysgu a gaiff eu cynnig. Mae cynnal brand ansawdd yn hanfodol ar gyfer llwyddiant y Coleg o ran denu myfyrwyr a chysylltiadau allanol.

Nifer y myfyrwyr

Yn 2022/23 mae'r Coleg wedi darparu gweithgaredd sydd wedi cynhyrchu £29.8 miliwn ym mhrif ddyfarniad cyllid y corff ariannu (2021/22 – £26.7 miliwn). Roedd gan y Coleg oddeutu 4,000 o fyfyrwyr amser llawn a 3,500 o fyfyrwyr rhan-amser. Yn ogystal, mae'r Coleg yn darparu hyfforddiant i ryw 3,000 o brentisiaid trwy raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith Llywodraeth Cymru.

Datblygiadau i'r cwricwlwm

Mae'r Coleg wedi parhau i ganolbwyntio ar feysydd â blaenoriaeth fel y nodwyd o wybodaeth am y farchnad lafur, sef:

- o Cyrsiau carbon sero net/gwyrdd
- o Adeiladu
- o TGCh a Thechnolegau Digidol (gan gynnwys llythrennedd digidol)
- o Y Sector Ynni

Mae Rheolwyr Cwricwlwm wedi gweithio gyda chyflogwyr ac arbenigwyr diwydiant yn y meysydd hyn. Yn ogystal, gwnaed defnydd cynyddol o fyrddau diwydiant er mwyn llywio a chyfarwyddo datblygiadau cwricwla'r dyfodol.

Mae gan y Coleg enw cryf am arloesedd a newid yn y cwricwlwm. Dros y blynyddoedd, mae wedi cyflwyno cyrsiau newydd mewn sawl maes cwricwlwm er mwyn diwallu anghenion myfyrwyr yn well. Mae'r Coleg wedi parhau i gynyddu ei ddarpariaeth ym meysydd adeiladu a TGCh yn enwedig trwy brentisiaethau.

Mae'r Coleg yn parhau i weithio gyda nifer o Sefydliadau Addysg Uwch, ac mewn partneriaeth mae'n addysgu Prentisiaethau Gradd mewn Cyfrifiadureg ac mewn Peirianeg.

Yn ogystal, mae'r Coleg yn arwain y sector o ran datblygu cwrs amser llawn mewn e-Chwaraeon sydd wedi parhau i dyfu ers ei garfan gyntaf ym mis Medi 2020.

Mae'r Coleg yn parhau i ehangu'r amrywiaeth o gyrsiau ar gyfer myfyrwyr sydd mewn perygl o fod yn NEET (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) trwy fentrau megis "Dilyniant i Addysg Uwch" ac Astudiaethau Galwedigaethol Lefel 1. Llwyddodd y Coleg i ehangu ei ystod o raglenni ysgol haf ar gyfer myfyrwyr mewn perygl gyda llawer wedyn yn cofrestru ar raglenni amser llawn. Roedd y cyrsiau hyn wedi darparu sesiynau blasu i gadw pobl ifanc mewn addysg a'u galluogi i symud ymlaen i raglenni galwedigaethol yn y flwyddyn ganlynol.

Gwelwyd twf o hyd mewn cyrsiau ESOL mewn ymateb i alw cynyddol.

Mae'r Coleg yn parhau i weithio'n agos gydag ysgolion lleol drwy gyflwyno ei raglenni 'Coleg Iau' i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed. Mae'r rhaglenni hyn yn darparu amrywiaeth o weithgareddau gyda'r nod o ennyn diddordeb ac ysbrydoli pobl ifanc, gan eu hannog i barhau mewn addysg ôl-16. Yn ogystal, mae'r Coleg yn darparu rhaglenni 'Prentisiaethau Iau' ar y cyd ag ysgolion lleol sy'n darparu dewisiadau amgen i ddysgwyr ysgol 14 oed.

Mae'r Coleg yn parhau i gynnig amrywiaeth eang o raglenni Lefel 3, gan gynnwys safon uwch mewn dros 40 o wahanol bynciau. Ategir y rhaglen Safon Uwch gan raglen diwtorial arbenigol i'r rhai sy'n gwneud cais i Rydgrawnt neu i broffesiynau meddygol. Mae'r Coleg yn falch o ddilyniant myfyrwyr o'r Coleg i Rydgrawnt ac i Brifysgolion Russell Group.

Datblygwyd y dilyniant hwn trwy gysylltiadau'r Coleg â Phrifysgol Caergrawnt trwy eu rhaglen HE+ a thrwy arwain gweithgareddau Canolfan Seren a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Ansawdd a Safonau

Mae asesiadau myfyrwyr coleg wedi bod yn dychwelyd yn raddol i weithdrefnau cyn-Covid. Yn 2021/2022, cynhaliwyd asesiadau allanol eto yn lle'r graddau a aseswyd gan athrawon o'r ddwy flynedd flaenorol. Dros y blynyddoedd hyn mae canlyniadau wedi'u sefydlogi ar gyfartaleddau uwch nag amseroedd cyn-Covid a byddant yn dychwelyd i'r lefelau blaenorol o 2023/24.

Oherwydd yr amgylchiadau eithriadol hyn nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi data perfformiad ar gyfer colegau unigol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi cyfyngu ar lefel y dadansoddi posibl ar berfformiad y Coleg. Fodd bynnag, mae'r Coleg wedi dadansoddi canlyniadau o duedd perfformiad mewnol. Y prif ganlyniadau ar gyfer cwblhau'n llwyddiannus dros y tair blynedd diwethaf oedd:

Three Year Comparison of College Outcomes (Main Qualifications)						
Measure	22-23	21-22	20-21		2-Year Trend	3-Year Trend
Successful Completion	81%	76%	83%		5%	-2%
Completion	88%	83%	88%		5%	0%
Attainment	93%	92%	94%		1%	-1%

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod y Coleg wedi cynnal lefel gyson o gyrhaeddiad. Roedd lefelau cwblhau yn is yn 2021/22, ond mae wedi dychwelyd i lefelau blaenorol yn 2022/23. Yn dilyn y pandemig roedd mynychu lleoliadau addysg amser llawn yn fwy heriol i'r myfyrwyr, a chyfrannodd hyn at y gyfradd gwblhau is ar gyfer 2020/21.

Ers 2018, mae canlyniadau wedi cael eu mesur yn erbyn Mesurau Perfformiad Parhaus, sy'n cynnwys dosbarthiadau chweched dosbarth ynghyd â cholegau. Mae canlyniadau Safon Uwch A bellach yn cael eu hadrodd dros y rhaglen ddwy flynedd ac mae perfformiad y Coleg fel a ganlyn:

A Level Consistent Measures (Trends)								
Measure		21/22	20/21	19/20	18/19	2-Year Trend	3-Year Trend	4-Year Trend
3 A*-E A Levels	16	68%	79%	74%	61%	-11%	-6%	7%
	17+	38%	58%	50%	47%	-20%	-12%	-9%
	All	64%	75%	69%	58%	-11%	-5%	6%
3 A*-C A Levels	16	56%	63%	66%	43%	-7%	-10%	13%
	17+	22%	44%	40%	23%	-22%	-18%	-1%
	All	51%	60%	60%	39%	-9%	-9%	12%
3 A*-A A Levels	16	20%	19%	22%	13%	1%	-2%	7%
	17+	2%	11%	6%	3%	-9%	-4%	-1%
	All	17%	18%	18%	11%	-1%	-1%	6%
Learners Completing AS		90%	90%	95%	95%	0%	-5%	-5%
Retention from AS-A2		83%	93%	79%	79%	-10%	4%	4%
Learners Completing A2		96%	95%	96%	96%	1%	0%	0%

Mae'r ffigurau hyn yn cwmpasu'r cyfnod cyn-Covid i 2021/22. Nid yw'r canlyniadau ar gyfer 2022/23 wedi'u pennu eto.

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Ar gyfer y Flwyddyn yn Diwedd 31 Gorffennaf 2023

Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) – Cymru

Mae'r Coleg yn parhau i dyfu ei contract a'i ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith ar draws ystod eang o gyfleoedd hyfforddi Prentisiaeth, gan weithio gyda thros 1,200 o gyflogwyr a 3,037 o brentisiaid yn 2022/23. Parhaodd 1,715 o brentisiaid â'u dysgu rhwng 2021/22 a 2022/23 a recriwtiwyd 1,322 o brentisiaethau newydd yn 2022/23.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe yn contractwr arweiniol ar gyfer Fframwaith Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau Cymru Llywodraeth Cymru a ddechreuodd 1 Awst 2021 ac sy'n rhedeg tan 31 Gorffennaf 2025, gydag opsiwn i ymestyn y Cytundeb tan 31 Gorffennaf 2027.

Darperir gwerthoedd contract ar gyfer Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau (ACP) Cymru bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru a gwerth y contract ar gyfer 2022/23 oedd £9.6 miliwn yn wreiddiol. Fodd bynnag, yn unol â'r holl ddarparwyr yng Nghymru, effeithiodd argyfwng ariannol 2022/23 ar recriwtio prentisiaid newydd, gyda chyflogwyr yn atal neu'n gohirio recriwtio oherwydd yr ansicrwydd economaidd. Felly, ym mis Mawrth 2023 cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ail-broffilio gyda'r holl ddeiliaid contract prentisiaethau a lleihawyd contract y Coleg i £9.3 miliwn i adlewyrchu'r dirywiad. Yna gosodwyd rhagolwg incwm y Coleg ar £8.5 miliwn yn seiliedig ar ddull modelu proffil contract byw.

Yn 2022/23, cyflawnwyd y contract drwy gyfuniad o bartneriaid cyflenwi mewnol (17 maes ar draws Hyfforddiant GCS a dwy Gyfadran y Coleg) a saith partner cyflenwi allanol (is-contractwyr). Mae tîm Ansawdd y Coleg yn parhau i weithio gyda'r tîm DSW canolog i weithredu cynllun datblygu ansawdd DSW cynhwysfawr er mwyn parhau i wella strategaeth a phrosesau, datblygu adnoddau a sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar gyfer prentisiaid a'u cyflogwyr.

Mae'r Coleg yn parhau i ehangu ein cynnig cwricwlwm DSW mewn ymateb i anghenion sgiliau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mewn sawl maes pwnc arbenigol rydym yn cynnig darpariaeth prentisiaeth ledled Cymru a ni yw'r unig ddarparwr sy'n cynnig llwybrau prentisiaeth arbenigol yng Nghymru. Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu ei gynnig prentisiaeth mewn ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, gan ddyrannu mwy o gyllid prentisiaeth i'r meysydd sy'n perfformio'n well, llwybrau o bwysigrwydd strategol/prinder sgiliau ac ati. Ymhellach, mae nifer y prentisiaethau a ddechreuwyd hefyd wedi'u lleihau mewn meysydd sy'n perfformio waethaf hyd nes y dangosir gwelliannau pellach.

Mae'r Coleg wedi meithrin enw da ar y cyd â chyflogwyr, rhanddeiliaid a Llywodraeth Cymru o ran datblygu a darparu cwricwlwm prentisiaeth ymatebol i ateb anghenion y sector presennol a'r rhai sy'n dod i'r amlwg. Yn 2023/23 fe wnaethom gynnig prentisiaethau mewn 45 o wahanol lwybrau darparu ar draws y rhan fwyaf o'r lefelau prentisiaeth sydd ar gael yn y llwybrau hyn. Arweiniodd hyn at gyflwyno 87 o wahanol raglenni prentisiaethau yn 2022/23 ar draws ein contract.

Mae gennym ddarpariaeth brentisiaeth fawr yng Nghymru, gyda recriwtio prentisiaethau'n dechrau gwella o'r oedi oherwydd Covid 19 a gafwyd yn 2020/21, a gafodd ei effeithio'n anffodus gan ansicrwydd economaidd o ganlyniad i'r argyfwng ariannol.

Mae'r rhan fwyaf o'n darpariaeth prentisiaethau ar gyfer 2023/24 wedi'i broffilio i'w ddarparu gan y Coleg (84%) gyda 16% wedi'i broffilio ar gyfer partneriaid cyflenwi allanol wedi'u his-gontractio ar gyfer meysydd arbenigol. Ar 31 Gorffennaf 2023 roedd gan y Coleg 1,839 o brentisiaid ar y rhaglen yng Nghymru sy'n cario drosodd i ddarpariaeth 2023/24 ac mae disgwyl i 1,682 o brentisiaid ychwanegol ddechrau yn 2023/24.

Cyfraddau cwblhau'r Fframwaith – prentisiaid a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru

Blwyddyn Contract	Cyfradd Cwblhau'r Fframwaith
2015/16	78%
2016/17	81%
2017/18	82%
2018/19	78%
2019/20 ¹	72%
2020/21 ¹	74%
2021/22 ¹	68%
2022/23 ²	74%

¹Cydnabu Llywodraeth Cymru ac Estyn effaith negyddol Covid 19 ar gynnydd prentisiaethau, a waethygyd yn 2022/23 gan argyfwng economaidd ac nid ydynt yn defnyddio nac yn cyhoeddi data cwblhau fframwaith ar gyfer darparwyr na'r rhwydwaith Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer 2019/20 a 2020/21 ac nid ar gyfer y Rhwydwaith DSW ar gyfer 2021/22. Nid ydynt ychwaith yn defnyddio ein data mewnol fel rhan o archwiliadau neu arolygiadau ansawdd, gan nad yw wedi'i ddilysu'n allanol. Felly mae'r cyfraddau cwblhau fframwaith ar gyfer 2019/20 a 2020/21 yn y tabl uchod yn dod o ddata mewnol ac nid ydynt wedi'u dilysu'n allanol, yn wahanol i flynyddoedd blaenorol.

² Ar gyfer 2020/21 mae'r gyfradd fframwaith sef 77% yn un dros dro gan nad yw'r data terfynol ar gyfer 2020/21 ar gael eto.

Mae cyfradd gwblhau fframwaith DSW y Coleg ar gyfer 2019/20 a 2020/21 a 2021/22 wedi cael ei heffeithio'n andwyol gan Covid-19, gan adlewyrchu'r sefyllfa gyda darparwyr DSW ledled Cymru. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn sectorau/llwybrau megis lechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Gweithgynhyrchu, Arwain a Rheoli a Thai. Mewn rhai llwybrau, symudwyd gweithwyr yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector o'u dyletswyddau arferol i ymateb rheng flaen i Covid yn ystod y pandemig, gan achosi oedi wrth gwblhau prentisiaethau wedi'u cynllunio. Cafodd dysgwyr mewn meysydd fframwaith eraill eu symud i weithio gartref ac roedd hyn hefyd wedi oedi eu hasesiadau prentisiaeth a'u cynnydd. O ganlyniad, mae llawer o brentisiaid wedi methu â chwblhau eu fframweithiau o fewn yr amserlenni disgwylidig ac mae eu rhaglenni prentisiaeth wedi cael eu hystyngiadau i flwyddyn academiaidd 2021/22, 2022/23 ac mewn rhai achosion 2023/24.

Ar gyfer 2022/23, i gydnabod effaith barhaus Covid ar gwblhau'r fframwaith yn y sector DSW, bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data cwblhau fframwaith ar gyfer darparwyr DSW ac yn rhannu hyn gyda'r darparwyr ac Estyn ond ni fydd yn cyhoeddi cyfraddau cwblhau fframwaith sefydliadau unigol. Yn lle hynny, byddant yn cyhoeddi cyfradd cyflawniad traws-sector DSW yn unig.

Yn 2019/20, 2020/21 a 2021/22, oherwydd effaith negyddol Covid-19, nid yw'r Coleg wedi diwallu dangosydd perfformiad ansawdd y fframwaith sef 75% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi yn y misoedd diwethaf bod eu targed cwblhau fframwaith sef 75% (a osodwyd cyn y pandemig) bellach yn uchelgeisiol ar gyfer 2019/20 i 2022/23 oherwydd effaith ffactorau allanol (pandemig ac economaidd). Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r sefyllfa yn y misoedd nesaf i gadarnhau a fydd hyn hefyd yn wir ar gyfer 2023/24.

Mae Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi gohirio monitro yn erbyn y targed cyflawni fframwaith hwn oherwydd effeithiau argyfwng Covid/economaidd, ac mewn rhai sectorau oherwydd diwygio'r

cwricwlwm prentisiaethau yn llwyr, sydd wedi effeithio ar gyfraddau cadw a chyrhaeddiad. Bydd Estyn yn ailddechrau monitro ac adolygu perfformiad y fframwaith yn fewnol yn erbyn y targed hwn o 2022/23 ymlaen, gan ystyried effaith Covid a ffactorau economaidd ar sectorau penodol a fydd yn cael dylanwad ar hyn.

Mae cyfraddau cyflawniad ein fframwaith Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3 dros dro sef 75% ar gyfer 2022/23 wedi gwella'n eithriadol o dda, oherwydd addasrwydd y maes cyflawni i amgylchiadau ac anghenion esblygol cyflogwyr. Mae trafodaethau anecdotaidd mewn cyfarfodydd darparwyr DSW yn awgrymu ein bod yn mynd yn groes i duedd darparwyr Cymru gyfan yn y llwybr hwn.

Mae'r gwaith parhaus o wella ansawdd mewn prentisiaethau yn parhau i dalu ar ei ganfed. Er ei bod yn anarferol i ni beidio ag ennill unrhyw wobrau cenedlaethol ar gyfer 2022/23, mae partneriaid cyflenwi mewnol amrywiol wedi elwa ar ymweliadau cyfnewid rhyngwladol drwy gyllid Taith Llywodraeth Cymru (sy'n disodli Erasmus+ yng Nghymru) i rannu arferion gorau a pharhau i ddod ag arferion arloesol yn ôl i lywio ein darpariaeth Prentisiaeth. Mae ein cynrychiolaeth prentisiaethau mewn cystadlaethau sgiliau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol hefyd yn dal yn gryf.

Mae'r Coleg yn parhau i weithio'n agos gyda dwy Brifysgol i gyd-ddarparu rhaglenni Prentisiaethau Gradd ar gyfer TG a Pheirianeg. Ariennir y rhain gan gontractau Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyda'r Prifysgolion sy'n is-gontractio i ni.

Darpariaeth Prentisiaeth Llywodraeth Lloegr 2022/23

Yn dilyn ein cynllun peilot Dysgu Seiliedig ar Waith yn Lloegr sy'n dechrau yn 2017/18, mae'r Coleg yn parhau i gael cynnig prentisiaeth arbenigol bach ond cynyddol yn Lloegr. Ar gyfer 2022/23, roedd gan y Coleg 62 o brentisiaid (26 yn parhau a 36 yn dechrau) ar draws 12 cyflogwr yn gweithio gyda dwy gyfadran y Coleg. Mae gennym gynlluniau recriwtio uchelgeisiol yn 2023/24 ar gyfer dros 150 o brentisiaid newydd. Rydym bellach yn cynnig safonau prentisiaeth Lloegr ar draws pum llwybr.

Yn Lloegr, fel Cymru, mae recriwtio prentisiaid yn parhau i fod yn heriol, gydag ansicrwydd economaidd yn achosi i gyflogwyr atal neu ohirio recriwtio prentisiaid ar gyfer 2022/23. Mae'r sector prentisiaethau ehangach yn Lloegr hefyd yn wynebu'r heriau hyn. Mewn adroddiad diweddar gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg tynnwyd sylw at y gostyngiad o 69% a fu yn nifer y prentisiaid newydd yn Lloegr ers 2015/16 - yn bennaf oherwydd diwygiadau i'r system brentisiaethau ynghyd ag aflonyddwch a grëwyd gan Covid. Mae nifer o ddarparwyr proffil uchel wedi penderfynu tynnu allan o farchnad prentisiaethau Lloegr yn ddiweddar oherwydd y materion hyn.

Mae Covid a'r argyfwng economaidd hefyd wedi effeithio'n fawr ar Gyfraddau Cyrhaeddiad Cymwysterau yn Lloegr. Caiff hyn ei gymhlethu ymhellach gan ddull 'Diwedd Blwyddyn Hybrid' yr Asiantaeth Ariannu Addysg a Sgiliau (ESFA) o gyfrifo cyflawniad. Mae hyn yn wahanol iawn i'r model a ddefnyddir yng Nghymru. Mae Diwedd Blwyddyn Hybrid yn cyfrif ymadawyr a chyraeddiadau yn y flwyddyn sydd ddiweddaraf o'r dyddiad gorffen arfaethedig, y dyddiad gorffen gwirioneddol neu'r dyddiad cyflawni. Mae hyn yn golygu bod oedi wrth adrodd am effaith Covid a ffactorau economaidd ar gyfraddau cyflawniad, gyda dysgwyr sy'n gadael yn gynnar a adawodd mewn gwirionedd yn 2019/20, 2020/21 a 2021/22, ond a ddechreuodd ar raglenni prentisiaeth hwy gyda Dyddiadau Gorffen Disgwyliedig yn 2021/22 a 2022/23, yn dal i gael effaith negyddol ar ein Cyfraddau Cyflawniad Cymwysterau. Oherwydd ein nifer cymharol fach o brentisiaid ar y rhaglen, gall hyd yn oed yn neu ddau ymadawydd cynnar gael effaith ganrannol uchel fesul llwybr. Gadawodd y nifer fach o ymadawyr cynnar un o'n cyflogwyr bwrdd iechyd yn Lloegr yn ystod pandemig Covid ar gyfer rolau mewn sectorau eraill gyda chyflog ac oriau gwaith gwell. Dylid nodi hefyd bod y gostyngiad yn nifer ein prentisiaid (a Chyfraddau Cyflawniad Cymhwyster dilynol) rhwng 2019/20 a 2021/22 yn adlewyrchu na fydd y Coleg yn recriwtio prentisiaid newydd rhwng hydref 2019 a gaeaf 2021 tan ein harolygiad Ofsted llawn.

Er bod y materion hyn wedi gwyro ein Cyfraddau Cyflawniad Cymwysterau Saesneg cyffredinol, mae'r ESFA wedi ystyried y ffactorau hyn ac nid yw wedi cael effaith negyddol ar ein hadolygiad blynyddol cyffredinol o ddarparwyr lle rydym wedi sgorio'n dda ym mhob maes arall, fel adborth gan gyflogwyr a dysgwyr ac ymatebolrwydd.

Cyfraddau Cyflawni Cymhwyster – Prentisiaid a ariannwyd gan Lywodraeth Lloegr

Blwyddyn contract	Ein Cyfradd Cyflawni Cymhwyster	Cyfartaledd Sector CCC (ystadegau cenedlaethol)	Cyfanswm prentisiaid ESFA ar raglen gyda CGA
2018/19	95%	64%	99
2019/20 ¹	73%	58%	37
2020/21 ²	45%	53%	35
2021/22 ³	25%	51%	32
2022/23 ⁴	50%	Amh.	62

¹Ni chyhoeddwyd CCC lefel sefydliad gan ESFA, dim ond cyfartaledd sector, felly, mae ein data a restrir ar gyfer eleni wedi'i gynnwys mewn data mewnlol heb ei ddilysu.

² Mae'r ffigur cyffredinol wedi'i ystumio gan ddau lwybr lle bu oedi o ran cyflawniad gan fod pob dysgwr yn gweithio mewn ysbyty a bu oedi o ran ei gyflawniad arfaethedig ar y rhaglen ddysgu oherwydd Covid-19. Felly roedd gan y llwybrau hyn gyfradd cyflawniad o 0%. Fodd bynnag, roedd gan y 3 llwybr arall gyfraddau cyflawniad o 100%, 100% a 67%.

³ Mae'r ffigur cyffredinol wedi'i ystumio gan ddau lwybr lle bu oedi o ran cyflawniad gan fod pob dysgwr yn gweithio mewn ysbyty a bu oedi o ran ei gyflawniad arfaethedig ar y rhaglen ddysgu oherwydd Covid-19. Felly roedd gan y llwybrau hyn gyfradd cyflawniad o 0%. Fodd bynnag, roedd gan y ddau lwybr arall gyfraddau cyflawniad o 100%.

⁴ Mae'r ffigur cyffredinol wedi'i ystumio gan un llwybr lle bu oedi o ran cyflawniad gan fod pob dysgwr yn gweithio mewn ysbyty a bu oedi o ran ei gyflawniad arfaethedig ar y rhaglen ddysgu oherwydd Covid. Felly roedd gan y llwybr hwn gyfradd cyflawniad o 0%. Fodd bynnag, roedd gan y llwybr arall gyfradd cyflawniad o 100%.

Addysg Uwch

Mae'r Coleg yn darparu llwybrau i'w ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau, y tu hwnt i lefel 3, gan ategu'r hyn a gynigir gan Brifysgolion Addysg Uwch (AU) yn y rhanbarth. Trwy hyn mae'r Coleg wedi ymrwymo i ddefnyddio ei ddarpariaeth i hwyluso a chefnogi mynediad i gyflogaeth o ansawdd uchel i'w fyfyrwyr. Ym mis Medi 2022 cyhoeddodd y Coleg Strategaeth AU newydd 2022-2026. Mae hwn yn amlinellu pwyslais ar ddilyniant sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd ar gyfer myfyrwyr Coleg ac ysgolion partner a nodwyd trwy gyrsiau AU amser llawn. Mae'n rhan o strategaeth y Coleg i barhau i ddatblygu'r cyrsiau hyn, yn bennaf ar lefelau 4 a 5, gyda Phrifysgolion partner yn cynyddu lefel y gweithgaredd AU yng Ngholeg Gŵyr Abertawe. Yn ogystal, bydd y Coleg yn tyfu ei farchnadoedd rhan-amser a phroffesiynol gan gefnogi llwybrau i gyflogaeth mewn sectorau allweddol. Mae'r sectorau a nodwyd, yn arbennig, yn cefnogi cyflogaeth ar lefel technegydd a galwedigaethol mewn meysydd o bwysigrwydd rhanbarthol gan gynnwys Peirianeg, Adeiladu, 'Gwyrdd', STEM, Addysg ac ADY, Gofal, Gwasanaethau Amddiffynnol a'r Gyfraith. Bydd hyn yn cynnwys dilyniant i fyfyrwyr presennol y Coleg ynghyd â myfyrwyr allanol a dysgwyr cyflogedig, trwy ddarpariaeth ran-amser mewn gwaith a Phrentisiaethau Uwch. Mae'r strategaeth hefyd yn anelu at gynyddu cofrestriadau myfyrwyr o gefndir ehangu cyfranogiad i sicrhau dilyniant ein myfyrwyr AB a fyddai'n annhebygol o barhau i Addysg Uwch heb y cynnig. Mae derbyn cynigion UCAS yn gadarn yn dangos bod ychydig llai na 50% o fyfyrwyr yn gwneud cais am gymorth DSA, mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i'r agenda hon a chefnogi dysgwyr o gefndiroedd ehangu cyfranogiad.

Drwy gydol blwyddyn academiaidd 2023/24, a thu hwnt, bydd y Coleg yn gweithio i ymgorffori'r Strategaeth AU newydd (2022-26) yn llawn gan sicrhau cwricwlwm cadarn ac ariannol gynaliadwy. Yn ogystal ag ymgorffori cyflogadwyedd fel llinyn hanfodol trwy holl ddarpariaeth AU y Coleg, bydd y Coleg yn adolygu ei gwricwlwm presennol i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â'i strategaeth newydd.

Mae gan y Coleg gysylltiadau â nifer o brifysgolion yng Nghymru, gan gynnig cyrsiau mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae tua 100 o fyfyrwyr addysg uwch amser llawn yn y Coleg bob blwyddyn. Mae'r Coleg hefyd yn gweithredu nifer o raglenni AU rhan-amser a rhaglenni proffesiynol mewn meysydd megis Peirianeg, Addysg a Busnes gan gynnwys ei ddarpariaeth gyfrifeg arobryn yn Ysgol Fusnes Plas Sgeti.

Mae'r Coleg wedi parhau â'i ddatblygiadau o ran Prentisiaethau Gradd. Wrth i gyfnodau pellach o brentisiaethau gradd gael eu cyflwyno yng Nghymru bydd y Coleg yn gweithio gyda phrifysgolion partner i nodi meysydd cydweithio sy'n cefnogi economi Cymru a'r rhanbarth. Drwy gydol blwyddyn academiaidd 2023/24, ac ymlaen, bydd y Coleg yn defnyddio ei ddarpariaeth hyfforddi athrawon i gefnogi ehangu cyfranogiad yn y proffesiwn addysgu. Mae hyn, yn arbennig, yn digwydd drwy gyflwyno cynlluniau bwrsariaeth a chymorth ar gyfer grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau eraill a dangynrychiolir ar gyrsiau TAR (PCET). Yn ogystal, bydd y Coleg yn cyflwyno bwrsariaeth a chynllun cymorth ar gyfer darpariaeth Gymraeg a Dwyieithog.

Yn dilyn Adolygiad llwyddiannus yr ASA o ddarpariaeth Addysg Uwch y Coleg ym mis Mai 2021, bydd y Coleg yn parhau i fonitro datblygiadau sy'n ymwneud â'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) newydd, sydd wedi cael Cydsyniad Brenhinol ac y bwriedir ei sefydlu yn 2024. Fel rhan o hyn bydd yn alinio ei gwricwlwm lefel 4+, gan ystyried a datblygu ei strategaeth ar gyfer lleoli'r Coleg mewn perthynas â threfniadau rheoleiddio yn y dyfodol fel rhan o CTER. Bydd hyn yn rhoi'r Coleg mewn sefyllfa i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol dros y blynyddoedd nesaf.

Perfformiad Ariannol

Cefnogir perfformiad addysgol y Coleg gan berfformiad ariannol cadarn a chryf. Mae perfformiad ariannol sylfaenol y Coleg, a fesurir fel “EBITDA wedi'i Addasu” (ac a ddiffinnir fel EBITDA cyn eitemau eithriadol ac addasiadau actiwaraid i bensiwn) fel a ganlyn:

	2022/23 (£000')	2021/22 (£000')
“EBITDA wedi'i addasu”	3,289	5,781
Cyfran o elw mewn cwmni cysylltiol	134	-
Llog net (taladwy)/derbyniadwy	361	(46)
Arian parod a gynhyrchwyd ar gyfer ailfuddsoddi	3,784	5,735
Dibrisiant, dirywiad ac amorteiddiad (net grantiau)	(2,067)	(1,792)
Costau eithriadol staff	(164)	(167)
Budd lleiafrifol	1	-
Gwarged cyn addasiadau pensiwn	1,554	3,776
Addasiadau actiwaraid i bensiwn	3,930	34,710
Gwarged/(Diffyg) am y flwyddyn	5,484	38,486

Tabl 5 - Perfformiad Ariannol

Canlyniadau ariannol

Cynhyrnod y Grŵp £3,289,000 (2021/22: £5,781,000) o “ETIBA wedi'i addasu”. Mae'r Coleg (fel pob coleg arall) wedi dioddef cynnydd mewn diffygion pensiwn dros y blynyddoedd diwethaf, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau i'r rhagolygon actiwaraid. Fodd bynnag, eleni bu gwrthdroi parhaus gan fod y rhwymedigaeth pensiwn bellach wedi'i dileu. O ganlyniad, mae gan y Grŵp incwm cynhwysfawr o £5,484,000 (2021/22 – £38,486,000).

Ar gyfer 2022/23, cynyddodd cyllid grant rheolaidd y Coleg £3,063,000 er mwyn darpariaeth uniongyrchol i'r myfyrwyr. Mae'r Coleg yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r sector AB drwy'r cyllid ychwanegol. Ar yr un pryd, mae'r Coleg wedi diwallu symudiadau yn y pwynt graddfa cytundebol ar y raddfa gyflog ac mae'n parhau i gwrdd â'r gyfradd Cyflog Byw bob mis Tachwedd.

Yn y cyd-destun hwn, mae cynhyrchu gwarged cyn costau pensiwn anariannol i'w hail-fuddsoddi yn y Coleg yn berfformiad canmoladwy. Mae'r Coleg hefyd yn cydnabod yr angen i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys datblygu ei ystâd i ddiwallu anghenion y dysgwr yn y dyfodol. Gan hynny, mae'r Coleg yn parhau i ddarparu'r adnoddau ar gyfer y buddsoddiad hwn yn y dyfodol.

Mae'r datganiadau ariannol yn nodi diffyg Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar fantolen y Coleg yn unol â gofynion FRS 102. Mae perfformiad asedau'r Coleg wedi bod yn gryf yn y flwyddyn, ac ynghyd â'r cynnydd mewn cyfraddau bondiau AAA (a chyfradd disgownt is felly), mae hyn wedi arwain at ddileu diffyg pensiwn LGPS (2022: £3.9 miliwn).

Mae mantolen y Grŵp a'r Coleg mewn sefyllfa ased net ar 31 Gorffennaf 2023 sef £42.6 miliwn.

Mae gan y Coleg fantolen gref ar 31 Gorffennaf 2023:

- Asedau net cyfredol gwerth £10.3 miliwn
- Balansau arian parod a buddsoddiad gwerth £18.7 miliwn

Yn ogystal, mae'r Grŵp yn parhau i gynhyrchu gwargedion arian parod ar gyfer buddsoddi yn isadeiledd y Coleg. Felly, mae gan y Coleg gyfleusterau digonol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau. Er hyn, mae rhaid i'r Coleg baratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol.

Yn ystod y flwyddyn, cyfanswm yr ychwanegiadau asedau sefydlog diriaethol oedd £3,678,000. Cafodd y swm ei wario ar wella tir ac adeiladau'r Coleg (£1,733,000) a phrynu offer (£1,945,000). Ariannwyd y gost yma yn rhannol gan grantiau Llywodraeth Cymru.

Croesawodd y Coleg hefyd grantiau cynnal a chadw a chyfalaf ystadau a grantiau offer a seilwaith TG gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn. Defnyddiwyd y grantiau hyn yn ystod y flwyddyn i wella cyfleusterau i staff a myfyrwyr. Mae ffocws penodol wedi bod ar ddiweddarau ystad y Coleg ar gyfer effeithlonrwydd ynni ynghyd â gwella'r seilwaith TG.

Mae'r Grŵp yn dibynnu'n sylweddol ar gyrff ariannu'r sector addysg ar gyfer ei brif ffynhonnell gyllid, sef grantiau rheolaidd yn bennaf. Yn 2022/23, darparodd Llywodraeth Cymru 53% (2021/22: 48%) o gyfanswm incwm y Grŵp trwy'r grant rheolaidd. Un o dargedau allweddol y Coleg yn y cynllun strategol yw lleihau lefel y ddibyniaeth ar incwm o grantiau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru.

Mae cwmni cynorthwyol y Coleg, Track Training Limited ("Track"), yn ddarparwr hyfforddiant wedi'i leoli yn ne Cymru, gan ddarparu hyfforddiant ledled y DU. Yn y flwyddyn flaenorol, mae'r cwmni wedi dioddef o amodau masnachu anodd. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd y cwmni'r gorau i fasnachu.

Polisiâu ac amcanion y trysorlys

Rheoli trysorlys yw rheoli trafodaethau llif arian y Coleg, ei drafodaethau bancio, marchnadoedd arian a marchnadoedd cyfalafol; rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny; a'r gorchwyl o sicrhau'r perfformiad gorau'n unol â'r risgiau hynny.

Mae'r Coleg yn gweithredu polisi rheoli trysorlys ar wahân.

Awdurdodir benthyciadau tymor byr at ddibenion cyllid dros dro gan y Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n rhaid i'r Gorfforaeth awdurdodi'r holl fenthyciadau eraill ac mae'n rhaid iddi gydymffurfio â gofynion Memorandwm Ariannol Llywodraeth Cymru.

Llif arian a hylifedd

Ar £3,517,000 (2021/22: £13,940,000), roedd y mewnlif arian parod net gweithredol yn gryf.

Mae'r lefelau benthyg presennol yn isel ac yn hanesyddol mae datblygiadau ystadau wedi cael eu hariannu drwy gyfuniad o gronfeydd arian parod a grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Mae maint cyfanswm benthyca'r Coleg a'i ymagwedd at gyfraddau llog wedi cael eu cyfrifo i sicrhau clustog resymol rhwng cyfanswm y gost o wasanaethu dyled a gweithredu llif arian. Yn ystod y flwyddyn, rhagorwyd ar y gwahaniaeth yma'n rhwydd.

Yn dilyn diwedd y flwyddyn, ad-dalodd y Coleg fenthyciad banc HSBC a oedd yn dod i £1,479,000 ar 31 Gorffennaf 2023.

Bydd y Coleg hefyd yn ymdrechu i gyflawni arbedion pellach trwy fentrau caffael a chydweithio â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd y Coleg arbedion caffael o 5% ac mae hyn yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru, sef 3%.

Taliadau Credydwy

Mae'r Coleg yn ymwybodol o'i rwymedigaethau o dan Ddeddf Hwyrddalu Dyled Masnachol (Llog) 1998. Polisi'r Coleg yw i bob cyflenwr gael ei dalu o fewn telerau talu pob cyflenwr unigol. Yn ystod y flwyddyn, gwnaeth y Coleg daliadau o fewn 13 diwrnod ar gyfartaledd (2021/22: 15 diwrnod) o ddyddiad yr anfoneb. Ni chodwyd unrhyw log ar y Coleg o dan Ddeddf Hwyrddalu Dyled Masnachol (Llog) 1998.

Cronfeydd wrth gefn

Ar 31 Gorffennaf 2023 roedd gan y Coleg gyfanswm cronfeydd wrth gefn (ac eithrio atebolrwydd pensiwn) o £42.6 miliwn a balansau buddsoddiad ac arian parod o £18.7 miliwn.

Mae'r Coleg yn dal ei gronfeydd wrth gefn ar gyfer ail-fuddsoddi ac adnewyddu ei ystâd ac i ddarparu cyfleusterau ac offer i ddiwallu'r anghenion i fyfyrwyr a staff. Adolygir y buddsoddiad hwn fel rhan o'r Strategaeth Ystadau.

Strategaethau Ystadau

Ein gweledigaeth yw cael cyfleusterau o'r radd flaenaf yn y Coleg i bob un o'n dysgwyr.

Mae Cynllun Amlinellol Strategol y Coleg a gyflwynwyd i raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (Ysgolion yr 21ain Ganrif yn flaenorol) ar gyfer cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleusterau rhagorol pellach i fyfyrwyr ar draws pob campws, â gwerth cymeradwy o £26 miliwn. Yna bydd angen i'r Coleg gyflwyno achosion busnes manylach ar gyfer pob prosiect i hawlio'r cyllid grant. Y gyfradd ymyrraeth gyfredol ar gyfer y rhaglken hon yw 65%.

Mae'r Coleg yn ymwybodol o ddemograffeg gynyddol y rheini sy'n gadael ysgol yn ardal Abertawe dros y pum mlynedd nesaf, a byddwn yn parhau i fuddsoddi yn natblygiad ein hystadau i fodloni'r cynnydd disgwylid yn nifer y myfyrwyr sy'n cofrestru yn y dyfodol. Er mwyn darparu ar gyfer y cynnydd hwn, mae'r Coleg wedi cyflwyno ei gais achos busnes i Lywodraeth Cymru am raglen adeiladu ac ailwampio gwerth £17 miliwn ar Gampws Gorseinon. Ar ôl diwedd y flwyddyn, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer y prosiect hwn. Telir balans costau'r prosiect o'r cronfeydd arian parod presennol.

Yn ystod y flwyddyn comisiynodd y Coleg nifer o arolygon (gan gynnwys ffocws ar garbon sero net) i alluogi'r Coleg i ddatblygu strategaeth ystadau tymor hwy. Bydd hyn yn nodi'r costau sylweddol i symud tuag at garbon sero net ac i wella a chynnal y cyfleusterau presennol. Bydd hyn yn sylfaen i geisiadau yn y dyfodol am gyllid i Lywodraeth Cymru.

Bydd y Coleg yn defnyddio canlyniad yr arolygon uchod i gyflwyno Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP) naw mlynedd i Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2024 i'w hystyried ar gyfer cyllid.

Rheoli Risgiau, Prif Risgiau ac Ansicrwydd

Mae Pwyllgor Rheoli Risg y Coleg yn cwrdd o leiaf bob tymor ac mae wedi'i ffurfio o uwch reolwyr y Coleg a'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyllid. Mae adolygiad yn cael ei gynnal ym mhob cyfarfod o'r risgiau y mae'r Coleg yn eu hwynebu.

Mae'r Coleg wedi gwneud gwaith pellach yn ystod y flwyddyn i ddatblygu a gwreiddio system rheoli mewnlol, gan gynnwys rheoli ariannol, gweithredol a rheoli risgiau a ddyluniwyd i ddiogelu asedau ac enw da'r Coleg.

Yn seiliedig ar y cynllun strategol, mae'r Pwyllgor Rheoli Risgiau yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r risgiau y mae'r Coleg yn eu hwynebu. Maent yn nodi systemau a gweithdrefnau, gan gynnwys camau penodol er mwyn eu hosgoi, a dylai hyn leddfu unrhyw effaith bosibl ar y Coleg. Mae rheolaeth fewnlol y Coleg wedyn yn cael ei rhoi ar waith a bydd gwerthusiad y flwyddyn ddilynol yn adolygu eu heffeithiolrwydd a'u cynnydd yn erbyn camau i leddfu risgiau. Yn ogystal â'r adolygiad blynyddol, bydd y Pwyllgor Rheoli Risgiau hefyd yn ystyried unrhyw risgiau a all godi o ganlyniad i faes gwaith newydd yn y Coleg.

Mae cofrestr risgiau'n cael ei chadw ar lefel Coleg ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn ac yn fwy aml pan fo'n briodol. Mae'r gofrestr risgiau'n nodi'r prif risgiau, y tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n digwydd, eu heffaith bosibl ar y Coleg a'r camau sy'n cael eu cymryd i leihau a lleddfu'r risgiau. Mae'r risgiau'n cael eu blaenoriaethu drwy ddefnyddio system sgorio gyson.

Ategir hyn gan raglen hyfforddiant rheoli risgiau i gynyddu ymwybyddiaeth o risgiau ar draws y Coleg.

Mae disgrifiad o'r prif ffactorau risg a allai effeithio ar y Coleg wedi'i nodi isod. Nid yw pob un o'r ffactorau hyn o fewn rheolaeth y Coleg. Gallai ffactorau eraill ar wahân i'r rhai a restrir isod gael effaith andwyol ar y Coleg

Grant rheolaidd Llywodraeth Cymru

Mae'r Coleg yn dibynnu'n helaeth ar gyllid parhaus trwy Lywodraeth Cymru. Yn 2022/23, daeth 53% (2021/22: 48%) o refeniw'r Grŵp o grant rheolaidd gan Lywodraeth Cymru. Nid oes sicrwydd y bydd polisi neu arferion y Llywodraeth yn aros yr un peth neu y bydd cyllid cyhoeddus yn parhau ar yr un lefelau neu ar yr un telerau.

Mae'r Coleg yn ymwybodol o sawl mater a allai gael effaith ar gyllid yn y dyfodol. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu pob ffrwd cyllid ac yn arbennig cyllid ar gyfer addysg ôl-16 ac nid yw AB ar hyn o bryd yn cael ei "diogelu" gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, gallai toriadau posibl i'r gyllideb addysg gyffredinol gael effaith fwy andwyol ar y sector AB na meysydd eraill.

Lleddfir y risg hon mewn sawl ffordd:

- Trwy sicrhau bod y Coleg yn drylwyr wrth ddarparu addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel.
- Rhoi ffocws a buddsoddiad helaeth ar gynnal a rheoli cysylltiadau allweddol â Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol drwy'r Coleg a thrwy Colegau Cymru.
- Sicrhau bod y Coleg yn canolbwyntio ar y sectorau hynny â blaenoriaeth a fydd yn parhau i elwa ar gyllid cyhoeddus.
- Trafodaethau rheolaidd gyda chyrrff cyllido.

Mae'r Coleg wrthi'n ceisio ffynonellau cyllid eraill ac ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar weithgaredd masnachol, addysg uwch, prentisiaethau a gweithgareddau masnachol yn Lloegr ac adeiladu ar enw da y Coleg yn rhyngwladol fel canolfan ar gyfer myfyrwyr tramor sy'n astudio rhaglenni Safon Uwch.

Costau ynni

Mae costau ynni'r Coleg (a phob sefydliad) wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a rhagwelir y byddant yn parhau ar y lefelau uwch hyn. Mae'r Coleg yn defnyddio broceriaid nwyddau sy'n prynu ynni ymlaen ar y farchnad gyfanwerthu er mwyn lliniaru effaith cynnydd tymor byr mewn prisiau ynni.

Mae hyn wedi cael yr effaith o leihau'r cynnydd presennol mewn prisiau yn y tymor byr. Fodd bynnag, bydd prisiau cyfanwerthu uwch parhaus yn arwain at brisiau ynni uwch yn y tymor hwy.

Mae'r Coleg wedi ceisio lliniaru hyn yn rhannol trwy wella cynaliadwyedd ystadau'r Coleg trwy fesurau fel goleuadau LED, rheolaethau Systemau Rheoli Adeiladau (BMS) uwch ac insiwleiddio ychwanegol sydd wedi lleihau'r defnydd o nwy a thrydan.

Cyllid Ewropeaidd/Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

Defnyddiodd y Coleg gyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ar brosiect ESF mawr o'r enw Sgiliau ar gyfer Diwydiant 2 sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr ac yn darparu hyfforddiant ar leoliadau gwahanol i staff gyda chyflogwyr lleol ledled y rhanbarth. Defnyddiwyd arian ESF sylweddol hefyd i gefnogi gweithgareddau'r Hyb Cyflogadwyedd, Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol.

Estynnodd y Coleg y prosiectau hyn yn llwyddiannus i fis Rhagfyr 2022 ac ers diwedd y flwyddyn mae wedi derbyn cymeradwyaeth ar gyfer cyllid olynol – Y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Fodd bynnag, dim ond tan fis Rhagfyr 2024 y mae'r cyllid hwn ar gael ar hyn o bryd. Os na all y Coleg gael cyllid amgen ar ôl y dyddiad hwn yna efallai y bydd angen i'r Coleg leihau neu roi'r gorau i'r gweithgareddau hyn.

Costau Cyflogres

Er bod Llywodraeth Cymru wedi dileu'r gofyniad bod Colegau AB Cymru yn sicrhau cyflog cyfartal ag ysgolion, mae'r gallu i reoli tâl yn hyblyg yn parhau i fod yn heriol oherwydd natur graddfeydd tâl cytundebol a'r pwysau i wneud taliadau costau byw.

Derbyniodd athrawon yng Nghymru ddyfarniad cyflog costau byw o 6.5% o fis Awst 2022 ynghyd â thaliad anghyfunol o 1.5% pellach o'u cyflog. Roedd hyn yn rhan o setliad cyflog dwy flynedd gyda Llywodraeth Cymru gyda chynnydd pellach o 5% o fis Awst 2023. Cafodd y cynnydd hwn ei ariannu'n rhannol gan gynnydd yn y grant rheolaidd. Mae'r Coleg yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru o'r proffesiwn addysgu yng Nghymru a'i safbwynt bod darlithwyr AB yng Nghymru yn cyflawni'r un rôl ag athrawon mewn ysgolion.

Mae adolygiad o'r Cynllun Pensiwn Athrawon gan Actiwari Llywodraeth y DU wedi arwain at gynnydd o 21% ym mhensiynau cyflogwyr (o 23.68% i 28.68% o dâl pensiynadwy) o fis Ebrill 2024.

Ni fydd y Coleg (fel gweddill y sector addysg) yn gallu cwrdd â'r pwysau hyn heb gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

Seilwaith TG

Mae pob sefydliad yn dibynnu mwy a mwy ar eu systemau TG, ac nid yw colegau'n eithriad yn hyn o beth. Wrth i'r Coleg barhau i fuddsoddi yn ei seilwaith TG, mae'r risgiau sy'n effeithio ar y Coleg yn parhau i gynyddu. Mae nifer yr ymosodiadau allanol maleisus ar bob sefydliad yn cynyddu.

Mae'r Coleg yn canolbwyntio ar wella cadernid ei systemau TG yn barhaus ac mae wedi buddsoddi ymhellach yn ystod y flwyddyn i gyrraedd achrediad Cyber Essentials Plus.

Yn ogystal, ni chaiff sefydliadau addysgol ddibynnu ar yr isadeiledd hwn i ddarparu addysg. Mae hyn wedi cael ei amlygu gan y pandemig diweddar, lle derbyniodd myfyrwyr amser llawn ddarpariaeth ar-lein o bell.

Er mwyn mynd i'r afael â'r her barhaus hon a darparu hydwythedd pellach, bydd y Coleg yn parhau i fuddsoddi yn ei "Weledigaeth Ddigidol", fel rhan o'i Strategaeth TG ddiweddaraf.

Mae'r Coleg yn croesawu'r ymrwymiad cyllid grant cyfalaf tair blynedd gan Lywodraeth Cymru i ariannu'n rhannol y datblygiadau pwysig hyn ar gyfer y sector.

Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i ddarparu amgylchedd dysgu diogel i fyfyrwyr a staff. Mae Pwyllgor Iechyd a Diogelwch y Coleg yn cwrdd i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer pob agwedd ar fywyd y Coleg. Rhoddir pwyslais arbennig ar feysydd fel teithiau addysgol ac eiddo trydydd parti a ddefnyddir gan fyfyrwyr fel rhan o'u lleoliad gwaith. Mae gan y Coleg Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd dynodedig.

Nifer y damweiniau adroddadwy eleni oedd 2 (blwyddyn flaenorol: 2). Nid yw'r adolygiad trwyadl wedi codi unrhyw broblemau systematig ac mae'r Coleg yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddileu'r holl ddamweiniau adroddadwy.

Mae'r Coleg hefyd yn gweithredu proses asesu risg gynhwysfawr gyda'r holl asesiadau risg yn cael eu diweddarau'n flynyddol.

Yr Amgylchedd

Mae'r Coleg yn parhau i hyrwyddo cynaliadwyedd a chyfarfu'r Grŵp Cynaliadwyedd sawl gwaith yn ystod y flwyddyn. Mae'r Grŵp Cynaliadwyedd yn cynnwys aelodau sydd yn fyfyrwyr ac maent wedi chwarae rôl weithredol yn nigwyddiadau yn y Coleg.

Mae'r Coleg hefyd wedi llwyddo i ennill a chadw ei Ddyfarniad Lefel 5 Draig Werdd Cymru am Reoli Amgylcheddol.

Ynni

Defnyddiodd y Coleg grantiau cynhaliadwy yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf i ganolbwyntio ar leihau'r ynni a ddefnyddir drwy gyflwyno goleuadau LED, gwella rheolaethau gwresogi ac insiweiddio toi i wella cadw gwres yn yr adeiladau.

	2021/2022	2022/2023
Dadansoddiad o ddefnydd ynni (kWh):		
Nwy	4,041,678	3,373,450
Trydan	2,404,506	2,168,994
Cludiant (Milltiroedd) - cerbydau a berchnogir	18,983	31,212
Cludiant (Milltiroedd) - cerbydau gweithwyr	72,627	152,970
Allyriadau Cwmpas 1 mewn tunelli metrig CO2e		
Defnydd o nwy	741	620
Cludiant a berchnogir - bysiau mini / coetsis	3	6
Cyfanswm Cwmpas 1	744	626
Allyriadau Cwmpas 2 mewn tunelli metrig CO2e		
Trydan a brynwyd	511	461

Allyriadau Cwmpas 3 mewn tunelli metrig CO2e		
Teithiau busnes mewn cerbydau a berchnogir gan weithwyr	20	43
Cyfanswm allyriadau gros mewn tunelli metrig CO2e	1,275	1,130
Cymhareb dwysedd		
Nifer y Staff	1,079	1,107
Tunelli o CO2 fesul aelod o staff	1.2	1.0

Mae'r buddsoddiad yn y ddwy flynedd ddiwethaf wedi arwain at ostyngiadau yn y defnydd o nwy a thrydan. Bu cynnydd mewn allyriadau o gerbydau'r Coleg a staff wrth i'r lefelau teithio gynyddu o ganlyniad i ddileu cyfyngiadau Covid. Fodd bynnag, mae'r lefelau'n parhau i fod yn is na'r rhai cyn-Covid wrth i fanteision technoleg a ddatblygwyd yn ystod Covid barhau i gael eu cymhwyso.

Gwastraff

Mae'r Coleg yn annog pob aelod o staff i leihau gwastraff yn unol â'r polisi arbed, ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae biniau ailgylchu i'w cael ar draws pob safle ac mae'r gwastraff hwn yn cael ei gasglu ar wahân gan gontractwr gwaredu gwastraff y Coleg. Mae nifer y biniau hyn wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhan fwyaf o wastraff Coleg na ellir ei ailgylchu yn cael ei losgi ac mae'r allgynnyrch a geir yn cael ei ailgylchu.

Caethwasiaeth Fodern

Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, mae'r Coleg wedi mabwysiadu a chymeradwyo ei Datganiad Caethwasiaeth a Masnachu Pobl.

Cyfleoedd Cyfartal

Mae'r Coleg yn ymroddedig i sicrhau cyfle cyfartal i bawb sy'n dysgu ac yn gweithio yma. Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi'n gadarnhaol gwahaniaethau o ran hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, crefydd neu gred ac oedran. Rydym yn ymdrechu'n gryf i ddileu sefyllfaoedd sy'n rhoi pobl dan anfantais a byddwn yn gwrthweithio rhagfarn.

Mae'r Coleg yn cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ac Amcanion Cydraddoldeb i sicrhau cydymffurfriad â'r ddeddfwriaeth gydraddoldeb berthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Cyhoeddir y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Cynnydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth blynyddol ar wefan y Coleg.

Mae gan y Coleg Bwyllgor Cydraddoldeb ac Amrywiaeth sefydledig sy'n cynnwys rheolwyr a llywodraethwyr.

Eleni, er ei bod yn heriol oherwydd y pandemig ledled y byd, mae'r Coleg wedi gallu bwrw ymlaen â'r amcanion cydraddoldeb strategol a osodwyd yn flaenorol. Roedd digwyddiadau allweddol eleni yn cynnwys diwrnod enfys rhithwir, dathliadau Mis Hanes Pobl Dduon, wythnos ymwybyddiaeth

Ffoaduriaid a Lloches, ymgyrchoedd ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Diwrnod Enfys a digwyddiadau lles pellach.

Ymunodd y Coleg yn flaenorol i fod yn gyflogwr hyrwyddo Stonewall ac yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, ac o ganlyniad bu cynnydd yn nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr anabl a phenodiadau llwyddiannus. Anfonodd Coleg Gŵyr Abertawe ei gyflwyniad cyntaf i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall (WEI) ar gyfer 2022. Cyflwynwyd gwobr Efydd i'r Coleg am ein gwaith yn hyrwyddo cynhwysiant a hawliau LGBTQ+. Roedd y Coleg yn safle 25 o'r holl gyflogwyr a ymunodd â'r WEI ac yn safle 12 ymhlith holl gyflogwyr Cymru. Gwnaeth polisiau cynhwysol y Coleg argraff fawr ar Stonewall, yn enwedig ein defnydd o iaith gynhwysol.

Mae'r Coleg wedi cymryd rhan mewn prosiect dan arweiniad Llywodraeth Cymru ac wedi cwblhau Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol ac wedi ymgysylltu â Black Leadership Group.

Mae'r Coleg hefyd wedi ennill statws Coleg Noddfa. Defnyddiwyd y wobwr hon fel enghraifft o arfer gorau ledled y DU i sefydliadau addysgol eraill sy'n ceisio cefnogi Ceiswyr Lloches. Y Coleg yw'r coleg cyntaf yng Nghymru i ennill y wobwr.

Mae'r Coleg yn cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi a gweithdrefn newydd ac mae'n cyhoeddi'r canlyniadau. Cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gyfer polisiau a gweithdrefnau presennol ar sail blaenoriaeth.

Mae'r Coleg wedi datblygu a mabwysiadu'r Siarter Cynhwysiant Coleg sydd wedi'i gydnabod gan Lywodraeth Cymru fel arfer da yn y sector.

Mae lles wedi'i wreiddio'n llawn yn niwylliant y Coleg ac yn cael ei gefnogi gan y Tîm Lles ymroddedig sy'n ymdrechu i wella lles staff. Mae'r Coleg wedi ennill Gwobr Aur Safonau Iechyd Corfforaethol am yr ymrwymiad i annog lles ymhlith staff sydd nid yn unig wedi'i gynnal ond hefyd wedi'i wella. Mae'r Coleg wedi cyrraedd rhestr fer Gwobrau CIPD yn ddiweddar ar gyfer "Menter Lles Iechyd Gorau, yn y sector cyhoeddus/trydydd sector".

Llywodraethu

Mae gan y Coleg strwythur llywodraethu datblygedig gyda strwythur gweithredol o bwyllgorau a chyfarfodydd Bwrdd gyda phresenoldeb da. Mae'r Bwrdd yn cynrychioli ystod eang o fuddiannau cymunedol a busnes ac yn darparu gwasanaeth craffu a chymorth i'r pwyllgor gwaith. Mae'r Bwrdd yn cynnwys dau gynrychiolydd sy'n fyfyrwyr a dau gynrychiolydd staff.

Ar wahân i gadeirio cyfarfodydd Bwrdd, mae Cadeirydd y Llywodraethwyr yn gweithredu fel rheolwr llinell y Pennaeth a'r Clerc. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd â phartneriaid strategol, arolygwyr a chyrrff allanol eraill lle mae angen i'r Cadeirydd fod yn bresennol ar ran y Coleg. Mae'n ymgynghori'n rheolaidd â'r Pennaeth.

Materion Allanol

Mae gan y Coleg enw da yn genedlaethol ac yn lleol, ac yn ddiweddar yn rhyngwladol.

Yn unol â cholegau eraill a phrifysgolion, mae gan Goleg Gŵyr Abertawe lawer o randdeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Myfyrwyr a rhieni
- Llywodraeth Cymru
- Ysgolion lleol

- Staff
- Cyflogwyr lleol (gyda chysylltiadau penodol)
- Awdurdodau lleol
- Y gymuned leol
- Sefydliadau AB eraill
- Sefydliadau Addysg Uwch
- Undebau llafur
- Cyrff proffesiynol

Mae'r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd y cysylltiadau hyn ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw trwy ystod eang o ffyrdd gwahanol.

Mae'r Coleg yn parhau i fod â chysylltiadau da ac, mewn rhai achosion, cysylltiadau ardderchog â'r holl ysgolion uwchradd ledled Dinas a Sir Abertawe yn ogystal ag eraill ar draws rhanbarth ehangach De-orllewin Cymru. Mae cydweithio gyda Chweched Dosbarth ysgolion ar eitemau eraill gan gynnwys rhannu arferion gorau a datblygu/cyflwyno'r cwricwlwm yn parhau i fod yn heriol, ond gyda chyflwyniad y Cwricwlwm 3-16 newydd i Gymru, cymwysterau TGAU galwedigaethol newydd a phwysau ariannol cynyddol rydym yn obeithiol y gall mwy o gynnydd gael ei wneud yn y dyfodol.

Yn ogystal, mae'r Coleg yn parhau i chwarae rhan weithredol mewn amrywiaeth eang o bartneriaethau lleol - gan gynnwys Partneriaeth Sgiliau Abertawe, Partneriaeth Atal NEET ac Adfywio Abertawe.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Coleg wedi doddi nifer o strwythurau mewnol a meysydd cwricwlwm yn y sefyllfa orau i ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a ddarperir gan Fargen Ddinesig Bae Abertawe, a phrosiectau lleol a chenedlaethol mawr eraill. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, datblygu canolfan ynni sy'n cynnig amrywiaeth o gyrsiau ar gyfer diwydiannau mewn ynni a chynaliadwyedd.

Gan fod y rhaglen Sgiliau a Thalent newydd yn cael ei harwain trwy'r Bartneriaeth Sgiliau Ranbarthol, mae'r Coleg yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r Bartneriaeth a'i amrywiol is-bwyllgorau, yn ogystal â chael cynrychiolaeth ar bob grŵp, gan gynnwys y Pennaeth sy'n cadeirio cyfarfod y Grŵp Darparwyr.

Mae Coleg Gŵyr Abertawe wedi cael ei ddewis i fod yn ganolfan HE+ Prifysgol Caergrawnt ar gyfer de Cymru, gan helpu i gynyddu nifer y myfyrwyr dawnus sy'n cael eu derbyn i'r prifysgolion gorau yn y DU. Mae hyn yn tanlinellu'r parch mawr sydd gan rai o sefydliadau AU mwyaf uchel eu parch yn y DU tuag at y Coleg hwn.

Yn ogystal, y Coleg yw corff arweiniol Canolfan Seren Abertawe. Mae Canolfan Seren yn gynllun cydweithredol rhwng y Coleg ac ysgolion Chweched Dosbarth Abertawe sy'n darparu cymorth er mwyn i fwy o bobl ifanc o Gymru allu ennill lle yn y Prifysgolion gorau ar draws y DU.

Roedd 96 o gystadleuwyr o'r Coleg wedi cymryd rhan yng nghystadlaethau Sgiliau Cymru yn 2022/23 sef gostyngiad bach o 1% (tri chystadleuydd) ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y myfyrwyr yn sylweddol fwy llwyddiannus gyda 30 o fyfyrwyr yn ennill medalau ar draws gwahanol feysydd galwedigaethol (saith efydd, 17 arian, chwech aur). Mae ceisiadau ar gyfer cystadlaethau Sgiliau'r DU hefyd wedi cynyddu 18% yn 2022/23 o 46 yn 2021/22 i 56 yn 2022/23. Llwyddodd saith o ddysgwyr y Coleg i symud ymlaen i Rowndiau Terfynol Sgiliau'r DU, gan ennill un fedal efydd ac un fedal arian.

Fel Coleg, rydym yn falch o gynnal rowndiau terfynol rhanbarthol Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a WorldSkills UK ar gyfer Electroneg Ddiwydiannol. Mae'r Coleg yn arbennig o lwyddiannus yn y categori hwn, gan ennill medal aur, arian ac efydd yng Nghystadleuaeth Sgiliau Cymru. Rydym yn hynod falch

bod tri myfyriwr o Goleg Gŵyr wedi cyrraedd y rownd derfynol yn rowndiau terfynol diweddaraf WorldSkills UK, gyda dau wedyn yn cael eu dewis yng ngharfan y DU lle bydd cystadleuwyr yn cael eu dewis ar gyfer rowndiau terfynol y Byd yn Lyon ym mis Medi 2024.

Mae'r Coleg yn parhau i gadw ein statws 'Canolfan Ragoriaeth' WorldSkills y DU ac yn 2022/23 mae'r pum aelod o staff a ymgwymerodd â rhaglen DPP helaeth yn 2021/22 a oedd yn cynnwys cyfleoedd rhwydwaith cenedlaethol a rhyngwladol wedi rhaedru dysgu allweddol i 20 o staff ychwanegol ar draws amrywiaeth o raglenni galwedigaethol. Mae hyn yn sicrhau ac yn dangos ymrwymiad parhaus i hyfforddiant staff a'r budd y gall cystadlaethau sgiliau ei gael ar ddysgwyr a staff.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Coleg wedi rhedeg cyfres o raglenni cyflogadwyedd a ariennir gan gyllid Ewropeaidd yng nghanol y ddinas, sef Gwell Swyddi, Gwell Dyfodol. Mae'r rhaglen wedi mynd i'r afael â heriau pobl Abertawe o ran dod o hyd i gyflogaeth (pobl ifanc, unigolion 25+ a'r rheini sydd mewn perygl o fod yn NEET) a chadw cyflogaeth (unigolion tangyflogedig a menywod). Yn y dyfodol credwn y byddwn yn gallu parhau â'r gwaith hwn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Mae rheolwyr y Coleg yn cyfrannu at ystod eang o weithgareddau partneriaeth ar draws y sector AB ledled Cymru a Lloegr, ac mae'r Coleg yn aelod gweithgar o Grŵp Cydweithredol y Colegau. Yng Nghymru, er enghraifft, yn ogystal â bod yn aelod o'r fforwm Penaethiaid, mae'r Pennaeth hefyd yn cadeirio Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Colegau Cymru.

Mae'r flwyddyn hon wedi bod yn flwyddyn eithriadol o heriol arall i addysg bellach yng Nghymru, a hoffwn ddiolch i staff, myfyrwyr a chyd-lywodraethwyr am eu hymrwymiad a'u cyfraniad drwy gydol y flwyddyn.

Rwy'n falch bod y Coleg yn parhau i fod mewn sefyllfa gadarn i wynebu heriau'r dyfodol.

Datgelu gwybodaeth i archwilwyr

Mae'r aelodau a oedd mewn swydd ar y dyddiad pan gymeradwywyd yr adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd eithaf gwybodaeth pob un ohonynt, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'n hysbys i archwilwyr y Coleg; a bod pob aelod unigol wedi cymryd pob cam y dylent eu cymryd er mwyn bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd drwy orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 7 Rhagfyr 2023 a llofnodwyd ar eu rhan gan:



Meirion Howells

Cadeirydd y Gorfforaeth

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol

Mae'r datganiad canlynol wedi'i ddarparu er mwyn i ddarllenwyr yr adroddiad blynyddol a chyfrifon y Coleg gael gwell dealltwriaeth o'i strwythur llywodraethu a chyfreithiol. Mae'r datganiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol.

Mae'r Coleg yn ymdrechu i gynnal ei fusnes:

- i. Yn unol â'r saith egwyddor a nodwyd gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthddrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth);
- ii. Yn unol â'r Cod Llywodraethu ar gyfer Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Colegau Cymru yn Ionawr 2016 ("y Cod"); a
- iii. Rhoi sylw dyledus i God Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 cyn belled ag y mae'n berthnasol i'r sector AB.

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i arddel arferion gorau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol ac mae'r Coleg wedi mabwysiadu'r Cod ac wedi cydymffurfio ag ef. Nid ydym wedi mabwysiadu Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ac felly nid ydym yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, rydym wedi adrodd ar ein trefniadau Llywodraethu Corfforaethol trwy fanteisio ar yr arferion gorau sydd ar gael, gan gynnwys yr agweddau hynny ar God Llywodraethu Corfforaethol y DU rydym yn ystyried eu bod yn berthnasol i'r sector AB ac arferion gorau.

Ym marn y llywodraethwyr, mae'r Coleg yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Cod a/neu'n rhagori arnynt, ac mae wedi cydymffurfio trwy gydol y flwyddyn a ddiweddodd 31 Gorffennaf 2023. Mae Bwrdd y Gorfforaeth yn cydnabod, fel corff y mae cyllid cyhoeddus a phreifat yn cael ei ymddiried ynddo, fod dyletswydd arbennig ganddo i ddilyn y safonau llywodraethu corfforaethol uchaf bob amser. Wrth gyflawni ei gyfrifoldebau, mae'n ystyried yn llawn y Cod Llywodraethu ar gyfer Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Colegau Cymru yn Ionawr 2016, ac roedd wedi mabwysiadu'r cod hwn yn ffurfiol ar 11 Chwefror 2016.

Mae'r Coleg yn elusen sydd wedi'i heithrio o fewn ystyr Rhan 3 Deddf Elusennau 2011. Mae'r Llywodraethwyr, sydd hefyd yn Ymddiriedolwyr at ddibenion Deddf Elusennau 2011, yn cadarnhau eu bod nhw wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau'r Comisiwn Elusennau ar fudd cyhoeddus, a bod y datganiadau gofynnol i'w gweld mewn manau eraill yn y datganiadau ariannol hyn.

Y Gorfforaeth

Roedd yr aelodau a wasanaethodd y Coleg yn ystod y flwyddyn ac ar ôl diwedd y flwyddyn hyd at ddyddiad llofnodi'r Adroddiad Blynyddol fel a ganlyn:

Llywodraethwr	Blwyddyn Penodi / Ailbenodi	Cyfnod y Swydd	Presenoldeb ym Mwrdd y Gorfforaeth	Pwyllgorau a Wasanaethwyd yn ystod y Flwyddyn
Mr M Howells	2016/2020	4 Blynedd	8/8	Cadeirydd y Gorfforaeth (o Awst 2020) C, PCY, ChLI, Tâl
Jahmil Ahmed *1	2022 (Gorffennaf)	1 flwyddyn	8/8	CA, PD
Mrs H Davies-Bjork (Staff)	2019 (Mai)	4 blynedd	7/7	CA, PD
Mr D Griffiths	2022 (Gorffennaf)	4 blynedd	6/8	C
Mr D Howells	2023 (Mai)	4 blynedd	1/1	Amh.
Dr A Iwobi	2021	4 blynedd	7/8	A, CA
Mr M Jones (Pennaeth a Phrif Weithredwr)	2013	Tra'n Bennaeth	8/8	CA, PCY, PD, C
Mrs M Leyshon	2019/2023	4 blynedd	2/8	A, ChLI, ADDS, Tâl
Miss I Milligan (staff)	2021 (Mehefin)	4 blynedd	0/1	PD, CA
Dr E Morris	2023 (Mai, ymddiswyddodd Mai 2023)	4 blynedd	Amh.	Amh.
Y Cyng S Pritchard	2019/2020/2022 (Gorffennaf)	4 blynedd	6/8	PD, ADDS
Dr J Rance	2020	4 blynedd	8/8	PCY, C, Tâl
Y Cyng R Smith	2022 (Gorffennaf)	4 blynedd	4/8	CA, C

Yr Athro C Thomas	2020	4 blynedd	7/8	C, CA
Mr D Thomas	2022	1 flwyddyn	6/8	Is-gadeirydd Bwrdd y Gorfforaeth o fis Mai 2022, ChLI, C
Miss H Thomas	2022 (Gorffennaf)	4 blynedd	6/8	PD, CA
Mr S Tse	2022 (Ebrill)	4 blynedd	6/8	ChLI, C
Mrs A Vickers	2021 (Mehefin)	4 blynedd	8/8	A, ChLI, Tâl
Mrs P Walters	2019 (Mai)	4 blynedd	4/6	A, CA
Dr S Weir (tan Fawrth 2023)	2020	4 blynedd	4/5	PCY, ADDS
Mrs S Williams	2016/2020	4 blynedd	7/8	ADDS, PD (Cadeirydd)
Mr G H Williams	2021 (Mehefin)	4 blynedd	1/1	Amh.
Mrs Helen Wright	2022 (Gorffennaf, ymddiswyddodd Hydref 2022)	4 blynedd	0/2	A, ADDS

Yn ystod y flwyddyn, gwasanaethodd Mr J Britton fel aelod cydetholedig o'r Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau.

Yn ystod y flwyddyn gadawodd Mrs P Walters a Mrs H Davies-Bjork y Bwrdd wrth i'w tymor gwasanaeth ddod i ben.

Ymddiswyddodd y llywodraethwyr canlynol yn ystod y flwyddyn: Mrs H Wright (penodwyd ym mis Mehefin 2022, ymddiswyddodd ym mis Hydref 2022), Dr E Morris (penodwyd ac ymddiswyddodd Mai 2023) Dr S Weir (ymddiswyddodd Mawrth 2023).

Penodwyd Mr D Howells ym mis Mai 2023 a phenodwyd Mr G H Williams, a Miss I Milligan (staff-lywodraethwr) ym mis Mehefin 2023. Penodwyd Mr F Banza yn llywodraethwr ar ôl diwedd y flwyddyn. Roedd pob tymor yn y swydd am bedair blynedd.

Gwasanaethodd Jamil Ahmed (llywydd cangen UCM) yn ystod y flwyddyn fel llywodraethwr myfyrwyr trwy ei swydd fel llywydd cangen UCM. Y myfyrwyr-lywodraethwyr a benodwyd ar gyfer 2023/24 yw Fatima Lopes (llywydd cangen UCM) a Vaughan Bailey.

Allwedd:			
C	Y Pwyllgor Cyllid	Tâl	Y Pwyllgor Tâl
ADDS	Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol	CA	Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd
ChLI	Y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu	PD	Pwyllgor Profiad y Dysgwr
A	Y Pwyllgor Archwilio	PCY	Y Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau
*1	Penodwyd yn Awst 2022 fel Llywydd Cangen UCM		

Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw llunio barn annibynnol ar faterion strategaeth, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Mae'r Gorfforaeth yn cael gwybodaeth reolaidd ac amserol ar berfformiad ariannol cyffredinol y Coleg, ynghyd â gwybodaeth arall megis perfformiad yn erbyn targedau cyllido, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd a materion cysylltiedig â phersonél fel iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol. Mae'r Gorfforaeth yn cwrdd unwaith y tymor o leiaf.

Mae'r Gorfforaeth yn cynnal ei fusnes trwy nifer o bwyllgorau. Mae cylch gorchwyl gan bob pwyllgor sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Gorfforaeth. Y pwyllgorau hyn yw'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau, y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd, y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, y Pwyllgor Profiad y Dysgwr, y Pwyllgor Tâl, a'r Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu. Mae cofnodion llawn pob cyfarfod, ac eithrio'r rhai y mae'r Gorfforaeth yn barnu eu bod yn gyfrinachol, ar gael gan Glerc y Gorfforaeth.

Mae pob llywodraethwr yn gallu ceisio cyngor proffesiynol annibynnol i helpu gyda'u dyletswyddau ar draul y Coleg, a gallant droi at Glerc y Gorfforaeth sy'n atebol i'r Bwrdd ac yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl weithdrefnau a rheoliadau cymwys yn cael eu dilyn. Mae penodi, gwerthuso, a diswyddo'r Clerc yn faterion i'r Gorfforaeth gyfan.

Mae agendâu, papurau ac adroddiadau ffurfiol yn cael eu rhoi i'r llywodraethwyr mewn da bryd cyn cyfarfodydd Bwrdd. Mae papurau briffio hefyd yn cael eu darparu fel y bo angen.

Mae elfen anweithredol gryf ac annibynnol gan y Gorfforaeth, ac nid yw unrhyw unigolyn neu grŵp yn tra-lywodraethu ar ei phroses gwneud penderfyniadau. Mae'r Gorfforaeth o'r farn bod pob un o'i haelodau anweithredol yn annibynnol ar reolaeth ac yn rhydd o unrhyw fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd yn sylweddol ag arfer eu barn annibynnol.

Mae rhaniad clir yn y cyfrifoldebau ac mae'r Cadeirydd a'r Pennaeth yn rolau ar wahân.

Penodiadau i'r Gorfforaeth

Mae unrhyw benodiadau newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'r Gorfforaeth gyfan eu hystyried. Mae Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu gan y Gorfforaeth sy'n cynnwys chwe llywodraethwr sy'n gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'r Gorfforaeth ei ystyried. Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod yr hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu fel y bo angen. Mae aelodau'r Gorfforaeth yn cael eu penodi am dymor heb fod yn fwy na phedair blynedd.

Cadeirydd y Llywodraethwyr

Rôl Cadeirydd y Llywodraethwyr yw cadeirio cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth. Yn ogystal, mae'r Cadeirydd yn gyfrifol am ymateb i unrhyw faterion sy'n effeithio ar y Coleg wrth iddynt godi. Fodd bynnag, nid oes gan y Cadeirydd unrhyw awdurdod i weithredu ac eithrio i gefnogi'r penderfyniadau a wneir gan Fwrdd y Gorfforaeth: Corfforaethau Addysg Bellach (Disodli Offerynnau Llywodraethu ac Erthyglau Llywodraethu) (Cymru) 2006, a Rheoliadau Corfforaeth (Llywodraeth) Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe 2010 (fel y diwygiwyd gan y Bwrdd).

Pennaeth

Mae'r Pennaeth hefyd yn aelod o Fwrdd y Gorfforaeth. Mae'r Pennaeth yn gyfrifol fel Swyddog Cyfrifyddu (cyfrifoldeb wedi'i ddiffinio gan Ddeddf Seneddol) ar gyfer cynnal a gweithredu'r Coleg o ddydd i ddydd.

Mae rhaniad clir yn y cyfrifoldebau ac mae'r Cadeirydd a'r Pennaeth yn rolau ar wahân.

Nid yw unrhyw Lywodraethwr, heblaw'r Pennaeth a'r Staff-lywodraethwyr, yn cael unrhyw dâl gan y Coleg. Mae un myfyriwr-lywodraethwr yn cael tâl am ei rôl fel Llywydd Cangen UCM.

Mae'n ofynnol i bob Llywodraethwr ac Uwch Aelod Staff y Coleg gwblhau datganiad buddiannau, ac mae'r wybodaeth wedi'i chynnwys yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau, sydd ar gael i'w archwilio.

Y Pwyllgor Cyllid

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys saith Llywodraethwr ac mae'n cwrdd i ystyried, cynghori ac adrodd i Fwrdd y Gorfforaeth ar bob agwedd ar gyllid y Coleg, polisiau a rheolaethau ariannol, gan gynnwys agweddau ariannol ar ddatblygiadau ystadau. Cyfarfu'r Pwyllgor bum gwaith yn ystod 2022/23.

Y Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau

Er mwyn cydnabod datblygiadau posibl i'r ystadau dros y pum mlynedd nesaf, mae'r Llywodraethwyr wedi creu Pwyllgor Prosiectau Cyfalaf ac Ystadau. Cyfarfu'r Pwyllgor wyth gwaith yn ystod 2022/23.

Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys chwe Llywodraethwr ac mae'n cwrdd i ystyried, cynghori ac adrodd i Fwrdd y Gorfforaeth ar bob agwedd ar faterion sy'n ymwneud â materion y gweithwyr. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2022/23.

Y Pwyllgor Chwilio a Llywodraethu

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys chwe Llywodraethwr a'i ddiben yw cynghori'r Gorfforaeth ar benodi aelodau newydd o'r Gorfforaeth ac argymhell polisiau a gweithdrefnau ar gyfer ymsefydlu, arfarnu a datblygu llywodraethu'r Gorfforaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022/23.

Y Pwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd

Roedd y Pwyllgor yn cynnwys wyth Llywodraethwr yn 2022/23. Diben y Pwyllgor yw cynghori Bwrdd y Gorfforaeth wrth iddo benderfynu ar gymeriad a chenhadaeth addysgol y Coleg, a derbyn ac ystyried adroddiadau mewnol ac allanol ar asesiadau ansawdd yn dilyn arolygu meysydd cwricwlaidd yn y Coleg. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2022/23.

Pwyllgor Profiad y Dysgwr

Mae'r Pwyllgor yn cynnwys saith Llywodraethwr a'i ddiben yw cynghori Bwrdd y Gorfforaeth ar y trefniadau sy'n cael eu gwneud i helpu myfyrwyr yn ystod eu cyfnod yn y Coleg. Newidiodd ei enw i Bwyllgor Profiad y Dysgwr ym mis Mehefin 2022. Cyfarfu'r Pwyllgor dair gwaith yn ystod 2022/23.

Y Pwyllgor Tâl

Cyfrifoldebau'r Pwyllgor yw gwneud argymhellion i'r Bwrdd ar dâl a thelerau ac amodau eraill y Pennaeth (unig uwch ddeiliad swydd y Coleg) a Chlerc y Bwrdd. Mae pum aelod gan y Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor ddwywaith yn ystod 2020/21. Mae'r manylion tâl ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Gorffennaf 2023 i'w gweld yn Nodyn 7 ar y Datganiadau Ariannol.

Y Pwyllgor Archwilio

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys chwe aelod o'r Gorfforaeth yn 2022/23. Mae'r Pwyllgor yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig a gymeradwywyd gan y Gorfforaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2022/23.

Presenoldeb gan aelodau yn ystod y flwyddyn:

	4.10.22	1.12.22	6.3.23	13.6.23	Cyfanswm
Mrs A Vickers (Cadeirydd)	X	X	X	X	4/4
Dr A Iwobi	X	X	X	X	4/4
Mrs P Walters	X	X	X		3/3
Mrs M Leyshon	X	X			2/4
Mr D Thomas		X	X	X	3/4
Mrs H Wright					0/1
Cyfanswm	4/6	5/5	4/5	3/5	
(mae X yn dynodi presenoldeb)					

Mae'r Pwyllgor yn darparu fforwm adrodd i archwilwyr mewnol a datganiadau ariannol y Coleg, sy'n gallu troi at y Pwyllgor i gael trafodaeth annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y Coleg. Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn ac yn ystyried adroddiadau gan Lywodraeth Cymru fel y maent yn effeithio ar fusnes y Coleg.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg yn monitro systemau rheolaeth mewnol, rheolaethau rheoli risg a phrosesau llywodraethu yn unol â chynllun wedi'i gytuno, ac yn adrodd eu casgliadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion archwilio a gytunwyd ac mae'r archwilwyr mewnol yn cynnal adolygiadau dilynol achlysurol i sicrhau bod argymhellion o'r fath wedi cael eu gweithredu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr mewnol a datganiadau ariannol a'u tâl am waith archwilio a gwaith arall.

Cofnodion Cyfarfodydd

Mae cofnodion yn cael eu cadw o bob cyfarfod o Fwrdd y Gorfforaeth a'r Pwyllgorau. Mae cofnodion y cyfarfodydd Pwyllgor yn cael eu rhoi i bob Llywodraethwr yn amodol ar yr eithriadau a ddisgrifiwyd yn Rheoliadau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe 2010 ac mae adroddiadau'n cael eu derbyn gan Fwrdd y Gorfforaeth gan Gadeiryddion y Pwyllgorau gwahanol.

Mae cofnodion cyfarfodydd Bwrdd y Gorfforaeth ar gael i'r cyhoedd yn amodol ar yr eithriadau a ddisgrifiwyd yn Rheoliadau (llywodraeth) Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Gŵyr Abertawe 2010 (fel y diwygiwyd i'r Bwrdd).

Mae cofnodion y Bwrdd yn cynnwys unrhyw faterion o bwys a adroddwyd gan y Pwyllgorau. Mae'r cofnodion ar gael drwy gysylltu â Chlerc y Gorfforaeth.

Rheolaeth fewnol

Cwmpas y cyfrifoldeb

Y Gorfforaeth sydd â'r cyfrifoldeb eithaf am system rheolaeth fewnol y Coleg ac adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'i bath wedi'i chynllunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a gall ddarparu sicrwydd rhesymol ond nid sicrwydd absoliwt yn erbyn camddatganiad neu golled sylweddol.

Mae'r Gorfforaeth wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i'r Pennaeth, fel Swyddog Cyfrifyddu, am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion y Coleg, gan ddiogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus y mae ef yn bersonol yn gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Gŵyr Abertawe a'r cyrff cyllid. Ef hefyd sy'n gyfrifol am adrodd i'r Gorfforaeth am unrhyw wendidau neu ddiffygion sylweddol yn y rheolaeth fewnol.

Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Nod y system o reolaeth fewnol yw rheoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risg o fethu â chyflawni polisiâu, nodau ac amcanion; felly gall roi sicrwydd rhesymol ac nid sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd yn unig. Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n ceisio adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisiâu, nodau ac amcanion y Coleg, gwerthuso pa mor debygol y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli yn effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yng Ngholeg Gŵyr Abertawe am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Capasiti o drin risg

Mae'r Gorfforaeth wedi adolygu'r prif risgiau y mae'r Coleg yn eu hwynebu ynghyd â'r rheolaethau gweithredu, ariannol a chydymffurfio sydd wedi cael eu rhoi ar waith i leddfu'r risgiau hynny. Ym marn y Gorfforaeth, mae proses barhaus ffurfiol yn weithredol ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau arwyddocaol y Coleg sydd wedi bod yn ei lle am y cyfnod yn diweddu 31 Gorffennaf 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r broses hon yn cael ei hadolygu'n gyson gan y Gorfforaeth.

Y fframwaith risg a rheoli

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli gyson, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys neilltuo dyletswyddau, a system ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn arbennig, mae'n cynnwys:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr gyda chyllideb flynyddol a adolygir ac y cytunir arni gan Fwrdd y Gorfforaeth
- adolygiadau rheolaidd gan Fwrdd y Gorfforaeth o adroddiadau ariannol achlysurol a blynyddol, sy'n dangos perfformiad ariannol yn erbyn y rhagolygon
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol a pherfformiad arall
- canllawiau clir ar gyfer rheoli buddsoddiadau cyfalaf
- mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiectau ffurfiol, lle bo'n briodol.

Mae gwasanaeth archwilio mewnol gan Goleg Gŵyr Abertawe sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru a Chod Archwilio Arferion. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn cael ei lywio gan ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Coleg yn eu hwynebu, ac mae cynlluniau archwilio blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Mae'r dadansoddiad o risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol wedi'u cymeradwyo gan y Gorfforaeth yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. O leiaf yn flynyddol, mae Archwilio Mewnol yn rhoi adroddiad i Fwrdd y Gorfforaeth ar weithgarwch archwilio mewnol yn y Coleg. Mae'r adroddiad yn cynnwys barn annibynnol archwilio mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheoli risg, rheolaethau a phrosesau llywodraethu'r Coleg.

Adolygu Effeithlonrwydd

Fel Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Pennaeth yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi'i lywio gan:

- waith yr archwilwyr mewnol
- gwaith y rheolwyr gweithredol yn y Coleg sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith rheolaeth fewnol
- sylwadau gan archwilwyr datganiadau ariannol y Coleg, y cyfrifydd adrodd ar gyfer sicrwydd rheoleidd-dra, yr archwilwyr cyllid penodedig (ar gyfer colegau sy'n destun archwiliad cyllid) yn eu llythyrau rheoli ac adroddiadau eraill.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cael ei gynghori ar oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Pwyllgor Archwilio, sy'n goruchwyllo gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol, a ffynonellau eraill o sicrwydd a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod proses o wella'r system yn barhaus ar waith.

Mae'r uwch dîm rheoli yn derbyn adroddiadau sy'n amlinellu dangosyddion perfformiad a risg allweddol, ac mae'n ystyried materion rheolaeth posib sydd wedi cael eu dwyn at ei sylw drwy fecanweithiau rhybudd cynnar sydd wedi'u sefydlu yn yr adrannau a'u hatgyfnerthu gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn derbyn adroddiadau cyson gan yr archwilwyr mewnol a ffynonellau eraill o sicrwydd, sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae agenda'r Gorfforaeth yn cynnwys eitem reolaidd i'w hystyried o risg a rheolaeth.

ac mae'n derbyn adroddiadau wedi hynny gan yr uwch dîm rheoli a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r pwyslais ar gael y graddau perthnasol o sicrwydd ac nid adrodd drwy eithriad yn unig. Yn ei gyfarfod yn Rhagfyr 2023, cynhaliodd y Gorfforaeth asesiad blynyddol am y flwyddyn yn diwedd 31 Gorffennaf 2023 drwy ystyried dogfennau'r uwch dîm rheoli a'r archwiliad mewnol, ac ystyried digwyddiadau er 31 Gorffennaf 2023.

Yn seiliedig ar gyngor y Pwyllgor Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Gorfforaeth o'r farn mai fframwaith digonol ac effeithiol sydd gan y Sefydliad ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth, a'i fod wedi cyflawni ei gyfrifoldeb statudol o ran "defnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon, diddyledrwydd y sefydliad a'r corff, a diogelu eu hasedau."

Busnes Gweithredol

Wedi gwneud ymholiadau priodol, mae'r Gorfforaeth o'r farn bod gan y Coleg adnoddau digonol i barhau i fodoli'n weithredol yn y dyfodol rhagweladwy. Oherwydd hynny, mae'n parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol.

Cymeradwywyd drwy orchymyn aelodau'r Gorfforaeth ar 7 Rhagfyr 2023 a llofnodwyd ar eu rhan gan:



Meirion Howells

Cadeirydd y Gorfforaeth



Mark Jones

Pennaeth a Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad ar Reoleidd-dra, Priodoldeb a Chydymffurfiaeth

Datganiad y Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu, cadarnhaf fod y Coleg wedi rhoi sylw dyledus i ofynion cytundebau cyllid grant a chontractau gyda Llywodraeth Cymru ac wedi ystyried ei gyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru am afreoleidd-dra perthnasol, amhriodoldeb a diffyg cydymffurfio â thelerau ac amodau ariannu.

Cadarnhaf ar ran y Coleg, ar ôl ymholiad priodol, a hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwyf wedi canfod defnydd afreolaidd neu amhriodol o gyllid gan y Coleg, neu ddiffyg cydymffurfio â'r telerau ac amodau cyllid dan femorandwm ariannol a chontractau'r Coleg gyda Llywodraeth Cymru neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall.

Rwyf yn cadarnhau nad oes unrhyw achosion o afreoleidd-dra, amhriodoldeb na diffyg cydymffurfio o ran cyllid wedi'u canfod hyd yma. Os nodir unrhyw achosion ar ôl dyddiad y datganiad hwn, byddwn yn hysbysu Llywodraeth Cymru amdanynt.



Mark Jones

Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad Cadeirydd y Llywodraethwyr

Ar ran y Coleg, cadarnhaf fod y Swyddog Cyfrifyddu wedi trafod ei ddatganiad o reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth â'r Bwrdd a fy mod yn fodlon ei fod yn berthnasol gywir.



Meirion Howells

Cadeirydd y Gorfforaeth

Datganiad o Gyfrifoldebau Aelodau'r Gorfforaeth

Mae'n ofynnol i aelodau Corfforaeth y Coleg gyflwyno datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn telerau ac amodau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorfforaeth y Coleg, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth, drwy ei Swyddog Cyfrifyddu, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredol ac ariannol am bob blwyddyn ariannol yn unol â '*Datganiad o'r Arfer a Argymhellir - Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau Addysg Bellach yng Nghymru*' ac Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y DU, sy'n rhoi darlun gwir a theg o faterion y Coleg a'i warged/ddiffyg incwm dros wariant am y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Gorfforaeth:

- Ddewis polisiâu cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- Llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth
- Datgan a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw ymryadau o bwys sydd wedi'u datgelu a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- Asesu a yw'r Coleg yn fusnes gweithredol, gan nodi'r tybiaethau ategol allweddol, cymwysterau neu weithredoedd lliniaru, fel y bo'n briodol (rhaid i hyn fod yn gyson â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac yn adroddiad yr archwilydd)
- Paratoi datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Coleg yn parhau i weithredu.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Gorfforaeth baratoi Adroddiad yr Aelodau sy'n disgrifio'r hyn y mae'n ceisio'i gyflawni a sut y mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy'n ei alluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol. Mae'n gyfrifol am gymryd y camau sy'n rhesymol agored iddo i ddiogelu ei asedau ac atal a darganfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Gorfforaeth yn gyfrifol am gynnal gwefan Coleg Gŵyr Abertawe a'i chywirdeb; nid yw'r gwaith a wnaed gan yr archwilydwr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac felly nid yw'r archwilydwr yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y DU ar gyfer paratoi a lleadaenu datganiadau ariannol amrywio o ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Aelodau'r Gorfforaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y gwariant a'r incwm yn cael eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau na ddefnyddir cyllid Llywodraeth Cymru at unrhyw ddibenion heblaw am y rhai a restrir yn y Memorandwm Ariannol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ac unrhyw amodau eraill a nodir gan Lywodraeth Cymru o dro i dro. Rhaid i aelodau'r Gorfforaeth sicrhau bod rheolaethau ariannol a rheoli priodol yn bodoli er mwyn diogelu arian cyhoeddus a chyllid arall ac i sicrhau y defnyddir yr arian yn briodol. Ynghyd â hyn, aelodau'r Gorfforaeth sy'n gyfrifol am sicrhau rheolaeth economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau a gwariant y Coleg rhag peryglu'r manteision a ddylai ddeillio o'r defnydd o gyllid cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru.

Cymeradwywyd drwy orchymyn Aelodau'r Gorfforaeth ar 7 Rhagfyr 2023 a llofnodwyd ar eu rhan gan:

A handwritten signature in black ink that reads "Meirion Howells". The signature is written in a cursive style with a large initial 'M'.

Meirion Howells

Cadeirydd y Gorfforaeth

A droddiad yr Archwilwyr Annibynnol

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Gŵyr Abertawe (y 'Grŵp') am y flwyddyn yn diweddu 31 Gorffennaf 2023, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr, Datganiad Coleg a Chyfunol o Newidiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Fantolen Gyfunol, Datganiad Cyfunol o Lif Arian a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau ariannol sylweddol. Y fframwaith adrodd ariannol sydd wedi ei ddefnyddio wrth eu paratoi yw cyfraith cymwys a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Unedig FRS 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" (Arfer Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig) a'r Datganiad Ymarfer Argymelledig: Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch.

Yn ein tyb ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi adlewyrchiad clir a theg o faterion y Grŵp a'r Coleg ar 31 Gorffennaf 2023 ac o warged incwm dros wariant y Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig.

Sail y farn

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) (ISAs (UK)) a'r gyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio datganiadau ariannol ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol o'r Coleg yn unol â gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i derbyn yn ddigonol ac yn briodol er mwyn darparu sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr aelodau o sail busnes gweithredol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rydym wedi'i berfformio, nid ydym wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys gwybodaeth sy'n rhan o adroddiad aelodau y Corff Llywodraethu ar wahân i'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilwyr amdanynt. Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn

cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio'r raddau a ddatganwyd yn benodol yn ein hadroddiad, nid ydym yn mynegi unrhyw gasgliad sicr amdano.

Mewn perthynas â'n harchwiliad o ddatganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn faterol anghyson â'r datganiadau ariannol neu os yw'n ymddangos bod yr wybodaeth a ddarganfu gennym yn ystod yr archwiliad neu ryw ffordd arall yn cael ei cham-ddweud yn faterol. Os ydym yn nodi'r fath anghysondeb materol neu gam-ddywediadau materol ymddangosol, mae'n ofynnol i ni benderfynu ai cam-ddywediad materol yn y datganiadau ariannol yw neu gam-ddweud materol yn yr wybodaeth arall. Os, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gennym, rydym yn dod i'r casgliad bod cam-ddweud materol o'r wybodaeth arall, mae'n ofynnol i ni adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hynny o beth.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd amdanynt drwy eithriad

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol y mae Cod Ymarfer Archwiliadau mewn Addysg Bellach a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei wneud yn ofynnol i ni ei adrodd wrthyf os, yn ein barn:

- nad oes cofnodion archwilio cywir wedi eu cadw; neu nid oes ffurflenni digonol wedi eu derbyn ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion neu ffurflenni cyfrifyddu; neu
- mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad aelodau'r Corff Llywodraethu, gan gynnwys yr adolygiad gweithredu ac ariannol a'r datganiad o llywodraethu corfforaethol, yn anghyson â'r datganiadau ariannol; ac
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu

Fel yr esbonir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu ar dudalen 32, mae'r Corff Llywodraethu'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni ei hun eu bod nhw'n rhoi darlun gwir a theg a'u bod yn wiriad mewnol y mae'r Corff Llywodraethu'n eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi'r datganiadau ariannol nad oes ganddynt gam-ddywediadau materol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am asesu gallu'r Grŵp i barhau fel busnes gweithredol gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion mewn perthynas â busnes gweithredol a defnyddio busnes gweithredol fel sail cyfrifyddu oni fydd y Corff Llywodraethu'n bwriadu rhoi'r gorau i weithrediadau neu nad oes ganddynt unrhyw ffordd realistig o beidio â gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol ar y cyfan yn rhydd o gam-ddweud materol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilwyr sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a wneir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (ISAs) (DU) bob tro yn canfod camddywediad pan fo'n bodoli. Gall camddywediadau godi o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn faterol os, yn unigol neu ar y cyd, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau ariannol a wnaed gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddywediadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r Grŵp a'i ddiwydiant, roeddem o'r farn y gallai diffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ganlyn gael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol: cydymffurfio â chytundebau ariannu Llywodraeth Cymru, fframwaith rheoleiddio Estyn, diogelu, deddfwriaeth pensiynau, rheoleiddio cyflogaeth a rheoleiddio iechyd a diogelwch, gwrth-lwgrwobrwyo, llygredd a thwyll, gwyngalchu arian.

Er mwyn ein helpu i nodi achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn, ac wrth nodi ac asesu'r risgiau o gamdatganiadau perthnasol mewn perthynas â diffyg cydymffurfio, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Holi'r rheolwyr a, lle bo'n briodol, y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, a yw'r Grŵp yn cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau, a thrafod eu polisiau a'u gweithdrefnau ynghylch cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau;
- Archwilio gohebiaeth, os o gwbl, ag awdurdodau trwyddedu neu reoleiddio perthnasol;
- Cyfleu deddfau a rheoliadau a nodwyd i'r tîm ymgysylltu a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harchwiliad; ac
- Ystyried y risg o weithredoedd gan y Grŵp a oedd yn groes i gyfreithiau a rheoliadau cymwys, gan gynnwys twyll.

Gwnaethom hefyd ystyried y deddfau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar baratoi'r datganiadau ariannol, megis deddfwriaeth pensiwn.

Yn ogystal, fe wnaethom werthuso cymhellion a chyfleoedd y cyfarwyddwyr a'r rheolwyr ar gyfer trin y datganiadau ariannol yn dwyllodrus, gan gynnwys y risg y byddai rheolwyr yn diystyru'r rheolaethau, a phenderfynwyd bod y prif risgiau'n ymwneud â phostio cofnodion dyddlyfr llaw i drin perfformiad ariannol, tuedd rheolwyr drwy ddyfarniadau a thybiaethau mewn amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol, yn enwedig mewn perthynas â chydabod refeniw (fe wnaethom briodoli hyn i'r cyfnod torbwynt, a thrafodion untro neu anarferol sylweddol).

Roedd ein gweithdrefnau archwilio mewn perthynas â thwyll yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Gwneud ymholiadau i'r cyfarwyddwyr a'r rheolwyr ynghylch a oedd ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig;
- Ennill dealltwriaeth o'r rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll;
- Trafod ymysg y tîm ymgysylltu risgiau twyll; a
- Mynd i'r afael â risgiau twyll o ganlyniad i reolwyr yn diystyru rheolaethau trwy wneud profion mynediad mewn cyfnodolion.

Mae cyfyngiadau cynhenid yn y gweithdrefnau archwilio a ddisgrifir uchod ac mae'r rheolwyr yn bennaf gyfrifol am atal a chanfod afreoleidd-dra gan gynnwys twyll. Yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, roedd risg o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Gellir gweld disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad yr archwilydd.

Adrodd arall sy'n ofynnol

Barn am faterion eraill y'u pennwyd yng Nghod Ymarfer Archwiliadau Addysg Bellach 2015 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru

Yn ein barn ni, ym mhob agwedd o bwys,

- mae arian a wariwyd o grantiau Llywodraeth Cymru a chronfeydd eraill o ba bynnag ffynhonnell a weinyddwyd gan y Sefydliad at ddibenion penodol wedi cael eu cymhwyso'n briodol i'r dibenion hynny ac, os yw'n briodol, wedi'u rheoli yn unol â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol; ac
- mae incwm wedi cael ei gymhwyso yn unol â'r memorandwm ariannol â Llywodraeth Cymru.

Defnyddio'r Adroddiad Archwilio

Mae'r adroddiad wedi'i greu i'r corff Llywodraethu fel corff yn unig, yn unol ag Erthyglau Llywodraethu'r Grŵp. Mae ein gwaith archwilio wedi'i wneud er mwyn i ni allu datgan i'r Corff Llywodraethu y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawnaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Grŵp a'r Corff Llywodraethu fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a luniwyd gennym.

Mazars LLP

Cyfrifwr Siartredig ac Archwilydd Statudol

90 Victoria Street

Redcliffe

Bristol

BS1 6DP

Dyddiad: 14 Rhagfyr 2023

Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Incwm Cynhwysfawr

Elfen ariannol	Nodiad au	2023 Grŵp £000	2023 Coleg £000	2022 Grŵp £000	2022 Coleg £000
INCWM					
Grantiau cyrff ariannu	2	48,044	48,044	48,367	48,367
Ffioedd dysgu a chontractau addysg	3	3,043	3,041	2,839	2,822
Grantiau a chontractau eraill	4	2,575	2,575	2,788	2,763
Incwm arall	5	2,469	2,489	1,944	1,944
Incwm buddsoddi	6	490	490	11	11
Cyfanswm incwm		56,621	56,639	55,949	55,907
GWARIANT					
Costau staff	7	39,597	39,463	39,378	38,852
Costau ailstrwythuro sylfaenol	7	164	82	167	132
Costau gweithredu eraill	8	11,819	12,049	13,452	14,153
Dibrisiant ac amorteiddiad	11,12	4,023	4,023	3,562	3,562
Llog a chostau cyllid eraill	9	219	219	687	675
Cyfanswm Gwariant		55,822	55,836	57,246	57,374
Gwarged/(diffyg) cyn enillion a cholledion eraill		799	803	(1,297)	(1,467)
Elw/(colled) ar werthu asedau		2	2	(5)	1
Dirywiad yng ngwerth eiddo		492	492	-	-
Cyfran o warged mewn cwmnïau cysylltiedig		134	134	-	-
Gareged/(diffyg) cyn treth		443	447	(1,302)	(1,466)
Trethiant	10	-	-	-	-
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		443	447	(1,302)	(1,466)
Cynnydd actwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn	25	5,040	5,040	39,790	39,790
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn cyn budd lleiafrifol		5,483	5,487	38,488	38,324
Budd lleiafrifol		1	-	(2)	-
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn		5,484	5,487	38,486	38,324
Incwm cynhwysfawr cyfyngedig		-	-	-	-
Incwm cynhwysfawr anghyfyngedig		5,484	5,487	38,486	38,324
		5,484	5,487	38,486	38,324
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn a briodolir i:					
Cyfran anreolaethol		(1)	-	2	-
Grŵp		444	447	(1,304)	(1,466)
		443	447	(1,302)	(1,466)
Cyfanswm Incwm Cynhwysfawr am y flwyddyn a briodolir i:					
Cyfran anreolaethol		(1)	-	2	-
Grŵp		5,485	5,487	38,484	38,324
		5,484	5,487	38,486	38,324

Tabl 8 - Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Incwm Cynhwysfawr

Adroddiad Blynnyddol a Datganiadau Ariannol Ar gyfer y Flwyddyn yn Diwedd 31 Gorffennaf 2023

Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Newidiadau Cronfeydd Wrth Gefn

Elfen ariannol	Cyfrif incwm a gwariant	Cronfa ailbriso	Cyfanswmac eithrio cyfran anreolaethol	Cyfran anreolaethol	Cyfanswm
	£000	£000	£000	£000	£000
Grŵp					
Balans ar 1 Awst 2021	(12,871)	11,527	(1,344)	-	(1,344)
(Diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	(1,304)	-	(1,304)	2	(1,302)
Incwm cynhwysfawr arall	39,790	-	39,790	-	39,790
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbriso ac incwm a gwariant	237	(237)	-	-	-
Symudiad yn y flwyddyn	38,723	(237)	38,486	2	38,488
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	25,852	11,290	37,142	2	37,144
Gwarged o'r cyfrif incwm a gwariant	444	-	444	(1)	443
Incwm cynhwysfawr arall	5,040	-	5,040	-	5,040
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbriso ac incwm a gwariant	237	(237)	-	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	5,721	(237)	5,484	(1)	5,483
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	31,573	11,053	42,626	1	42,627
Coleg					
Balans ar 1 Awst 2021	(12,715)	11,527	(1,188)	-	(1,188)
(Diffyg) o'r cyfrif incwm a gwariant	(1,466)	-	(1,466)	-	(1,466)
Incwm cynhwysfawr arall	39,790	-	39,790	-	39,790
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbriso ac incwm a gwariant	237	(237)	-	-	-
Symudiad yn y flwyddyn	38,561	(237)	38,324	-	38,324
Balans ar 31 Gorffennaf 2022	25,846	11,290	37,136	-	37,136
Gwarged o'r cyfrif incwm a gwariant	447	-	447	-	447
Incwm cynhwysfawr arall	5,040	-	5,040	-	5,040
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd ailbriso ac incwm a gwariant	237	(237)	-	-	-
Cyfanswm incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	5,724	(237)	5,487	-	5,487
Balans ar 31 Gorffennaf 2023	31,570	11,053	42,623	-	42,623


Tabl 9 - Datganiad Cyfunol a Datganiad y Coleg o Newidiadau Cronfeydd Wrth Gefn

Mantolenni

Elfen ariannol	Nodiadau	2023	2023	2022	2022
		Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
		£000	£000	£000	£000
Asedau anghyfredol					
Asedau sefydlog anniriaethol	12	176	176	230	230
Asedau sefydlog tiriaethol	11	45,016	45,016	45,779	45,779
Buddsoddiadau	13	134	134	-	-
Eiddo buddsoddi	13	175	175	145	145
Ased pensiynau	25	-	-	-	-
		45,501	45,501	46,154	46,154
Asedau Cyfredol					
Masnach a symiau eraill sy'n dderbyniadwy	14	4,995	5,015	4,455	4,454
Buddsoddiadau	15	4,000	4,000	3,000	3,000
Arian parod a'r cyfwerth	20	14,758	14,731	16,359	16,348
		23,753	23,746	23,814	23,802
Llai: Credydwy'r – symiau'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	(13,394)	(13,391)	(13,186)	(13,182)
Asedau cyfredol net		10,359	10,355	10,628	10,620
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol					
Credydwy'r – symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	17	(12,028)	(12,028)	(14,372)	(14,372)
Darpariaethau					
Rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio	25	-	-	(3,930)	(3,930)
Darpariaethau eraill	19	(1,205)	(1,205)	(1,336)	(1,336)
Cyfanswm asedau net		42,627	42,623	37,144	37,136
Cronfeydd Anghyfyngedig					
Cyfrif incwm a gwariant		31,573	31,570	25,852	25,846
Cronfa ailbriso		11,053	11,053	11,290	11,290
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig a briodolir i'r Grŵp		42,626	42,623	37,142	37,136
Budd lleiafrifol		1	-	2	-
Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig		42,627	42,623	37,144	37,136


Tabl 10 - Mantolen

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 38-75 gan y Gorfforaeth ar 7 Rhagfyr 2023 a'u llofnodi ar ei rhan ar y dyddiad hwnnw gan:



Meirion Howells

Cadeirydd y Corff Llywodraethu



Mark Jones

Pennaeth a Swyddog Cyfrifyddu

Datganiad Cyfunol o Lif Arian

Elfen ariannol	Nodiadau	2023 £000	2022 £000
Lif arian o weithgareddau gweithredu			
Gwarged/(diffyg) am y flwyddyn		799	(1,297)
Addasiad ar gyfer eitemau heblaw arian parod			
Dibrisiant ac amorteiddiad		4,023	3,562
(Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr		(302)	132
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus o fewn blwyddyn		(793)	3,361
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn		(801)	3,148
(Gostyngiad) mewn darpariaethau		(131)	(86)
Costau pensiwn llai cyfraniadau sy'n daladwy		1,110	5,080
Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu			
Incwm buddsoddi		(490)	(11)
Llog taladwy		102	51
Treth a dalwyd		-	-
Colled ar werthu asedau sefydlog		-	-
Lif arian net o weithgareddau gweithredu		3,517	13,940
Lif arian o weithgareddau buddsoddi			
Enillion o werthu asedau sefydlog		2	1
Incwm buddsoddi		252	2
Adneuon newydd		(1,000)	(3,000)
Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog		(4,107)	(5,441)
		(4,853)	(8,438)
Lif arian o weithgareddau ariannu			
Llog a dalwyd		(102)	(51)
Ad-daliadau symiau a fenthycwyd		(163)	(224)
Elfen cyfalaf yn nhaliadau rhent prydlesi cyllid		-	(1)
		265	(276)
		(1,601)	5,226
Arian parod a'r cyfwerth ar ddechrau'r flwyddyn	20	16,359	11,133
Arian parod a'r cyfwerth ar ddiwedd y flwyddyn	20	14,758	16,359

Tabl 11 - Datganiad Cyfunol o Lif Arian

Nodiadau ar y Cyfrifon

1, Datganiad o bolisiau cyfrifyddu a thechnegau amcangyfrif

Mae'r polisiau cyfrifyddu canlynol wedi'u gweithredu'n gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn berthnasol mewn perthynas â'r datganiadau ariannol.

Statws Cyfreithiol

Sefydlwyd y Gorfforaeth o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 at ddiben cynnal Coleg Gŵyr Abertawe. Mae'r Coleg yn elusen sydd wedi'i heithrio o dan Ran 3 Deddf Elusennau 2011. Sefydlwyd y Gorfforaeth yng Nghymru a'r swyddfa gofrestredig yw Coleg Gŵyr Abertawe, Heol Tychoch, Sgeti, Abertawe, SA2 9EB.

Sail Paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â'r *Datganiad o'r Arfer a Argymhellir: Cyfrifyddu mewn Addysg Bellach ac Uwch 2019* (SORP AB AU 2019), *Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gyfer Colegau AB yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn unol â FRS 102 - *"Y Safon Adrodd Ariannol sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon"*. Mae'r Coleg yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi cymhwyso gofynion budd cyhoeddus perthnasol FRS 102.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol i gydymffurfio â FRS 102, mae angen defnyddio rhai amcangyfrifon cyfrifyddu critigol. Mae angen i reolwyr arddel barn hefyd wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r Coleg.

Sail Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd drwy ddefnyddio prisiau blaenorol fel cost dybiedig ar ddyddiad y newid ar gyfer asedau anghyfredol penodol.

Sail Cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Coleg a'i is-gwmni, Track Training Limited, a reolir gan y Grŵp. Cyflawnir rheolaeth pan fydd gan y Grŵp y pŵer i lywodraethu polisiau ariannol a gweithredol endid er mwyn cael buddion o'i weithgareddau. Mae canlyniadau is-gwmnïau a gaffaelwyd neu a waredwyd yn ystod y cyfnod wedi'u cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant cyfunol o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad gwaredu. Caiff gwerthiannau ac elw o fewn y Grŵp eu dileu'n llawn adeg cyfuno. Yn unol â FRS 102, nid yw gweithgareddau undeb y myfyrwyr wedi cael eu cyfuno gan nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hynny. Mae'r holl ddatganiadau ariannol wedi'u gwneud hyd at 31 Gorffennaf 2023.

Busnes Gweithredol

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn Adroddiad y Corff Llywodraethu. Mae sefyllfa ariannol y Coleg, ei hylifedd, llif arian a'i fenthyciadau i'w gweld yn y Datganiadau Ariannol a'r nodiadau cysylltiedig.

Mae gan fantolen y Coleg asedau net o £42.6 miliwn ar 31 Gorffennaf 2023. Mae'r asedau net hyn yn codi ar ôl grantiau cyfalaf gohiriedig o £14.3 miliwn (o fewn credydwy'r) a'r symudiadau actiwaraid mewn perthynas â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Cyfanswm yr ased pensiwn ar 31 Gorffennaf 2023 oedd £dim. Y sefyllfa ased gyfredol net oedd £10.3 miliwn.

Mae gan y Coleg falansau arian parod a buddsoddi o £18.7m ar 31 Gorffennaf 2023 sy'n cynnwys grantiau a dderbyniwyd ymlaen llaw o £2.7 miliwn. Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o £0.4m. Mae rhagolygon ariannol y Coleg yn dangos y bydd yn gallu gweithredu o fewn ei gyfleusterau a'i gyfamodau presennol hyd y gellir ei weld.

Mae'r Llywodraethwyr wedi ystyried effeithiau posibl Covid-19 ar y Coleg. Mae'r Coleg wedi llwyddo i addasu ei ddulliau addysgu er mwyn cyflwyno cyfuniad o addysg wyneb yn wyneb, ar-lein ac o bell.

Roedd nifer y cofrestriadau dysgwyr amser llawn ym mis Medi 2023 yn gryf a disgwylir i nifer y cofrestriadau gynyddu dros y blynyddoedd nesaf, gan fod demograffeg Abertawe yn nodi niferoedd cynyddol o ymadawyr ysgol ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Mae'r Llywodraethwyr hefyd wedi ystyried effaith Brexit. Defnyddiodd y Coleg gronfeydd strwythuredig ESF sef tua £2 filiwn a daeth y prosiectau hyn i ben yn Rhagfyr 2022. Mae'r Coleg wedi cynllunio ar gyfer diwedd y prosiectau hyn ac wedi gallu cyrchu ffrydiau ariannu olynol drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ystod 2023.

Yn ogystal, mae gan y Coleg ddisgwyliadau rhesymol o ran meddu ar adnoddau digonol i barhau i weithredu ar gyfer y dyfodol, ac o'r herwydd, bydd yn parhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol wrth baratoi ei Ddatganiadau Ariannol.

Cydnabod Incwm

Mae grantiau refeniw'r Llywodraeth, gan gynnwys grantiau rheolaidd cyrff ariannu a grantiau eraill, yn cael eu cydnabod o dan y model croniadau fel y caniateir gan FRS 102. Mae grantiau rheolaidd cyrff ariannu yn cael eu mesur yn unol â'r amcangyfrifon gorau ar gyfer y cyfnod maen nhw'n dod yn dderbyniadwy ac maent yn dibynnu ar y ffrwd incwm benodol o dan sylw. Gwneir addasiadau o ran unrhyw dangyflawniad ar gyfer y grant rheolaidd ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn lefel y grant rheolaidd a gydnabyddir yn y datganiad o incwm cynhwysfawr. Fel rheol, mae incwm terfynol y grantiau'n cael ei bennu ar ddiwedd y broses gysoni ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r corff ariannu yn dilyn ar ddiwedd y flwyddyn, yn ogystal â chanlyniadau unrhyw archwiliadau cyllid.

Mae'r grant rheolaidd o Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cynrychioli'r dyraniadau cyllid a briodolir i'r flwyddyn ariannol bresennol ac mae'n cael ei gredydu'n uniongyrchol i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Cydnabyddir cyllid Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW) ar ôl i'r incwm gael ei ennill.

Cydnabyddir grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau anllywodraethol mewn incwm pan fo gan y Coleg hawl i'r incwm ac y bodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad. Caiff incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau sy'n ymwneud â pherfformiad ei gydnabod fel incwm gohiriedig o fewn credydwy'r ar y fantolen a'i ryddhau i incwm yn unol â bodloni amodau felly.

Mae grantiau cyfalaf y Llywodraeth, a ddelir fel incwm gohiriedig ac a gydnabyddir mewn incwm dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased, yn cael eu cofnodi o dan y dull croniadau fel y caniateir gan FRS 102. Caiff grantiau cyfalaf eraill eu cydnabod fel incwm pan fo gan y Coleg hawl i'r cyllid ac y bodlonir amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

Mae incwm o ffioedd dysgu yn cael ei ddatgan gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt ac yn cael ei gofnodi yn y cyfnod mae'n cael ei dderbyn.

Credydir yr holl incwm o adneuo tymor byr i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y mae'n cael ei ennill ar sail dderbyniadwy.

Cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth

Mae buddion ôl-gyflogaeth i gyflogeion y Coleg yn cael eu darparu'n bennaf gan y CPA a'r LGPS. Mae'r rhain yn gynlluniau â buddion wedi'u diffinio, a ariennir yn allanol ac a gonaethwyd allan o Ail Gynllun Pensiwn y Wladwriaeth.

Cynllun nad yw'n cael ei ariannu yw'r TPS. Cyfrifir y cyfraniadau i'r TPS mewn modd fel y gellir gwasgaru cost y pensiwn dros oes waith y gweithwyr yn y Coleg fel bo cost y pensiwn i raddau sylweddol yn ganran gyson o'r cyflogau pensiynadwy presennol ac i'r dyfodol. Pennir y cyfraniadau gan actiwariad cymwysedig ar sail prisiau gan ddefnyddio dull buddion arfaethedig. Cynllun aml-gyflogwr yw'r TPS, ac nid oes modd i'r Coleg ganfod ei gyfran o asedau ac ategolion gwaelodol y cynllun ar unrhyw sail gyson a rhesymol. Trinnir y TPS felly fel petai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig a chydabyddir y cyfraniadau fel cost yn y datganiad incwm yn y cyfnodau pan ddarperir gwasanaethau gan gyflogeion.

Cynllun wedi'i ariannu yw'r LGPS. Mesurir asedau'r CPLIL gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau LGPS gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanol a'u disgowntio ar y gyfradd adennill gyfredol ar fond corfforaethol o ansawdd uchel o'r un tymor ac arian cyfred â'r rhwymedigaethau. Ceir y prisiau actiwariad bob tair blynedd o leiaf a chânt eu diweddarau ar ddyddiad pob mantolen. Y symiau a godir i weithredu gwaged yw costau presennol y gwasanaethau a'r costau ar gyfer cyflwyno cynlluniau, newidiadau i fuddiannau, setliadau a chwtogiadau. Maent yn cael eu cynnwys fel rhan o gostau staff a gronwyd. Mae llog net ar fuddion diffiniedig y rhwymedigaeth/ased hefyd yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cynnwys y gost llog ar y rhwymedigaeth/ased buddion net diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'u cyfrifo trwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r cyfnod gan y gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd yn erbyn y gwaged gweithredol. Cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r enillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

Cydnabyddir enillion a cholledion gwirioneddol yn syth mewn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill.

Buddion cyflogaeth tymor byr

Caiff buddion cyflogaeth tymor byr megis cyflogau ac absenoldebau cyflogedig (tâl gwyliau) eu cydnabod fel treuliau yn y flwyddyn y bu'r cyflogeion yn gweithio i'r Coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu crynhoi a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Coleg ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio.

Pensiynau uwch

Bydd y Coleg yn talu gwir gost unrhyw bensiwn uwch barhaus i gyn-aelod o staff yn flynyddol. Mae amcangyfrif o'r gost ddisgwylidig am unrhyw ychwanegiad i bensiwn cyn-aelod o staff yn cael ei godi yn llawn i incwm y Coleg yn y flwyddyn y bydd yr aelod o staff yn ymddeol. Yn ystod y blynyddoedd i ddilyn codir tâl yn narpariaethau'r fantolen gan ddefnyddio'r daenlen pensiynau uwch a ddarperir gan y cyrff ariannu.

Asedau anghyfredol - asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol wedi'u nodi fel cost/cost dybiedig llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mae eitemau penodol o asedau sefydlog a ail-brisiwyd i werth teg ar neu cyn y dyddiad pontio i SORP AB AU 2015, yn cael eu mesur ar sail cost dybiedig, sef y swm wedi'i ailbrisio ar ddyddiad yr ailbrisiad hwnnw.

Tir ac adeiladau

Nid yw tir rhydd-ddaliad wedi'i ddibrisio.

Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio gan ddefnyddio dull llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig i'r Coleg sef rhwng 10 a 50 mlynedd. Mae gan y Coleg bolisi o ddibrisio addasiadau pwysig i'r adeiladau dros gyfnod eu hoes economaidd ddefnyddiol, sef rhwng 10 a 50 mlynedd.

Pan afaelir tir ac adeiladau gyda chymorth grantiau penodol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio fel y nodir uchod. Credydir grantiau perthynol i gyfrif incwm gohiriedig o fewn credydwy, a cânt eu rhyddhau i'r cyfrif incwm a gwariant dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthynol ar sail sy'n gyson â'r polisi dibrisio. Dyrennir incwm gohiriedig rhwng credydwy sy'n ddyledus o fewn blwyddyn a'r rheini sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn. Mae grantiau cysylltiedig â chaffael tir yn cael eu cydnabod fel incwm yn y flwyddyn y maent yn cael eu derbyn.

Bydd adolygiad ar gyfer amhariad ased sefydlog yn cael ei gynnal os bydd digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill y swm a gariwyd ar gyfer unrhyw ased sefydlog.

Adeg mabwysiadu FRS 102, roedd y Coleg wedi dilyn y ddarpariaeth drosiannol i gadw gwerth llyfr y tir a'r adeiladau, a werthuswyd adeg yr ymgorffori yn 1993, ond i beidio â mabwysiadu polisi ailbrisió'r eiddo hwn yn y dyfodol. Ailbrisiwyd tir gan y Coleg fel rhan o drefniadau pontio fel ar 1 Awst 2014, ond nid er mwyn mabwysiadu polisi o ailbrisió tir yn y dyfodol.

Asedau sy'n cael eu hadeiladu

Mae asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu cofnodi ar gost, yn seiliedig ar werth tystysgrifau'r penseiri a chostau uniongyrchol eraill, a gafwyd hyd at 31 Gorffennaf. Nid ydynt yn cael eu dibrisio nes eu bod yn cael eu defnyddio.

Cyfarpar

Caiff y cyfarpar sydd ag oes ddefnyddiol o dros flwyddyn eu cyfalafu am gost.

Mae cyfarpar wedi'u cyfalafu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth dros weddill eu hoes economaidd ddefnyddiol fel a ganlyn:

- cerbydau modur 4 blynedd
- offer cyfrifiadurol 4 blynedd
- celfi, darnau gosod a gosodiadau 5 - 10 mlynedd

Asedau anniriaethol ac ewyllys da

Mae ewyllys da sy'n deillio o gaffael is-gwmnïau yn cael ei amorteiddio gan ddefnyddio dull llinell syth dros gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y caffael.

Mae meddalwedd a thrwyddedau cyfrifiadurol yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog anniriaethol a'u hamorteiddio dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig y feddalwedd neu'r drwydded rhwng pedair a 10 mlynedd. Mae costau blynyddol cadw a chynnal meddalwedd yn cael eu cofnodi ar y Datganiad o Incwm Cyfunol yn y flwyddyn berthnasol.

Costau benthycu

Cydnabyddir costau benthycu fel gwariant yn y cyfnod yr aethpwyd i'r costau

Asedau ar brydles

Mae costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu yn cael eu nodi gan ddefnyddio dull llinell syth dros gyfnod y brydles. Rhennir unrhyw breimymau neu gymhelliannau prydlesi sy'n gysylltiedig â phrydlesi a lofnodwyd ar ôl 1 Awst 2014 dros dymor isafswm y brydles. Mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriadau trosiannol yn FRS 102 ac mae wedi cadw'r polisi o ehangu premiymau a chymhelliannau i ddyddiad yr adolygiad cyntaf o rent y farchnad ar gyfer prydlesi a lofnodwyd cyn 1 Awst 2014.

Mae cytundebau prydlesu sy'n trosglwyddo'n syllweddol holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased i'r Coleg yn cael eu trin fel prydlesi cyllid.

Mae'r asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid yn cael eu cydnabod ar y dechrau am werth teg yr ased ar brydles (neu, os yw'n is, gwerth presennol isafswm tâl y brydles) ar ddechrau'r brydles. Mae'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr wedi'i chynnwys ar y fantolen fel rhwymedigaeth prydles gyllid. Mae asedau a ddelir o dan brydlesi cyllid wedi'u cynnwys yn yr asedau sefydlog diriaethol a'u dibrisio a'u hasesu ar gyfer colledion amhariad yn yr un ffordd ag asedau a berchnogir.

Dosrennir isafswm taliadau'r brydles rhwng y tâl cyllid a gostyngiad y rhwymedigaeth sy'n weddill. Dosrennir y taliadau cyllid dros gyfnod y brydles yn gymesur â'r elfen gyfalaf sy'n weddill.

Buddsoddiadau

Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau

Yn y datganiadau ariannol unigol nodir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau fel y gost ar ôl tynnu amhariad.

Buddsoddiadau eraill

Caiff buddsoddiadau rhestredig a ddelir fel buddsoddiadau asedau anghyfredol ac asedau cyfredol, a allai gynnwys buddsoddiadau rhestredig, eu datgan ar eu gwerth teg. Caiff symudiadau eu cydnabod yn yr Incwm Cynhwysfawr. Mae buddsoddiadau, sy'n cynnwys offer ecwiti heb eu dyfynnu, yn cael eu mesur ar werth teg, a'u hamcangyfrif gan ddefnyddio techneg brisio.

Eiddo buddsoddi

Caiff rhestrau eiddo eu nodi yn ôl y gwerth ar y farchnad agored ar ddyddiad y fantolen.

Rhestrau eiddo

Nodir rhestrau eiddo ar yr isaf o'r gost a gwerth dichonadwy, sef y pris gwerthu llai costau i orffen a gwerthu. Lle y bo'n briodol, darperir ar gyfer eitemau hanfodol, araf a diffygiol.

Arian parod a'r cyfwerth

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuo'n i'w had-dalu ar gais, a gorddrafftiau. Cyfrifir adneuo'n fel rhai i'w had-dalu ar gais os ydynt ar gael yn ymarferol ymhen 24 awr heb gosb ariannol.

Mae symiau cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau hylifol iawn, byrdymor y gellid eu trosglwyddo i symiau penodol o arian parod heb risg sylweddol o newid eu gwerth. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiad sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad ei gaffael.

Rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti

Caiff rhwymedigaethau ariannol ac ecwiti eu dosbarthu yn ôl cynnwys rhwymedigaethau cytundebol yr offeryn ariannol, yn hytrach na ffurflen gyfreithiol yr offeryn ariannol.

Caiff pob benthyciad, buddsoddiad ac adnau tymor byr a ddelir gan y Grŵp eu dosbarthu fel offer ariannol sylfaenol yn unol â FRS 102. Caiff yr offer hyn eu cofnodi yn y lle cyntaf ar y pris trafod llai unrhyw gostau trafod (cost hanesyddol). Mae FRS 102 yn ei gwneud yn ofynnol bod offer ariannol sylfaenol wedyn yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio. Fodd bynnag, mae'r Grŵp wedi cyfrifo nad yw'r gwahaniaeth rhwng y gost hanesyddol a'r gost wedi'i hamorteiddio yn sylweddol ac felly, nodir yr offer ariannol hyn ar y fantolen ar gost hanesyddol. Nid yw benthyciadau a buddsoddiadau sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn blwyddyn wedi'u disgowntio.

Trosi arian tramor

Caiff trafodion a wneir mewn arian tramor eu cofnodi gan ddefnyddio'r cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodyn. Caiff asedau a rhwymedigaethau ariannol a wneir mewn arian tramor eu trosi yn ôl y cyfraddau cyfnewid sy'n weithredol ar ddiwedd y cyfnod ariannol gyda'r holl wahaniaethau cyfnewid a geir o ganlyniad yn cael eu cofnodi yn yr incwm yn y cyfnod maen nhw'n codi.

Trethiant

Ystyrir bod y Coleg yn pasio profion Paragraff 1, Atodlen 6, Deddf Cyllid 2010 ac felly'n cyrraedd diffiniad cwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. O ganlyniad, gallai'r elusen fod yn rhydd o'r angen i dalu treth mewn cysylltiad ag incwm neu enillion cyfalaf a dderbynnir o fewn categorïau a gwmpasir gan Adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethiant Enillion Cyfalaf 1992 i'r graddau y defnyddir y fath incwm neu enillion at ddibenion elusennol yn unig.

Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol yn achos Treth ar Werth, felly ni all ond adfer tua 3% o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynau. Caiff TAW anadferadwy ar fewnbynau ei gynnwys yng nghostau o'r fath a'i hychwanegu at gost asedau sefydlog diriaethol fel y bo'n briodol, pan fydd y fewnbynau eu hunain yn asedau sefydlog diriaethol wrth natur.

Rhaid i is-gwmnïau'r Coleg dalu treth gorfforaethol a TAW fel y mae'n rhaid i unrhyw sefydliad masnachol ei wneud.

Darpariaethau a rhwymedigaethau amodol

Cydnabyddir darpariaethau pan fydd gan y Coleg rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol. Mae'n debygol y bydd angen trosglwyddo budd economaidd er mwyn setlo'r rhwymedigaeth a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Os yw effaith gwerth amser yr arian yn sylweddol, mae'r swm y disgwylir iddo setlo'r rhwymedigaeth yn cael ei gydnabod ar werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn treth. Mae dad-ddirwyn y disgownt yn cael ei gydnabod fel cost cyllid yn y datganiad o incwm cynhwysfawr yn y cyfnod mae'n codi.

Mae rhwymedigaeth amodol yn codi o ddigwyddiad blaenorol sy'n gosod rhwymedigaeth bosibl ar y Coleg y caiff ei bodolaeth ei chadarnhau dim ond drwy achos neu fel arall o ddigwyddiadau penodol yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Coleg. Mae rhwymedigaethau amodol yn codi hefyd mewn amgylchiadau lle byddai darpariaeth fel arall, ond naill ai mae'n annhebygol y bydd angen echlif adnoddau neu ni ellir mesur swm y rhwymedigaeth yn ddibynadwy. Ni chydabyddir rhwymedigaethau nac asedau amodol yn y fantolen, ond fe'i datgelir yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol.

Trefniadau Asiantaeth

Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant o ran casglu a thalu cronfeydd cymorth dewisol. Mae taliadau cysylltiedig a gafwyd o'r cyrff ariannu a'r taliadau dilynol i fyfyrwyr yn cael eu heithrio o incwm a gwariant y Coleg os yw'r Coleg yn agored i risg isel iawn neu'n mwynhau budd economaidd isel iawn mewn perthynas â'r trafodyn.

Dyfarniadau wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r rheolwyr wedi gwneud y dyfarniadau canlynol:

- Penderfynu a yw prydles y mae'r Coleg wedi ymrwymo iddynt naill ai fel gosodwr prydles neu ddaliwr prydles yn brydles gweithredol neu brydles cyllid. Mae'r penderfyniadau hyn yn dibynnu ar asesiad o ran a yw'r risgiau a'r manteision perchnogaeth wedi cael eu trosglwyddo o'r prydleswr i'r prydlesai fesul prydles.
- Penderfynu a oes dangosyddion amhariad o asedau diriaethol y Grŵp, gan gynnwys ewyllys da. Mae ffactorau sy'n cael eu hystyried wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys hyfywedd economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig y dyfodol yr ased a lle mae'n gydran o uned fwy sy'n cynhyrchu arian, hyfywedd a pherfformiad ariannol disgwyliedig y dyfodol yr uned honno.

Ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif

- Asedau sefydlog tiriaethol

Mae asedau sefydlog diriaethol, ar wahân i fuddsoddi mewn eiddo, yn cael eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol gan ystyried gwerthoedd gweddilliol lle y bo'n briodol. Mae oes wirioneddol yr asedau a'r gwerthoedd gweddilliol yn cael ei hasesu'n flynyddol a gall amrywio yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Wrth ailasesu oes asedau, mae ffactorau megis arloesi technolegol a rhaglenni cynnal a chadw yn cael eu hystyried. Mae asesiadau gwerth gweddilliol yn ystyried materion megis amgylchiadau marchnad yn y dyfodol, gweddill oes yr ased a gwerthoedd gwaredu rhagamcanol.

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gwerth presennol rhwymedigaeth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol â buddion wedi'u diffinio'n dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu penderfynu ar sail actiwaraid gan ddefnyddio amrywiaeth o dybiaethau. Mae'r tybiaethau a ddefnyddir wrth bennu (incwm) cost net ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgownt. Bydd unrhyw newididiadau yn y tybiaethau hyn, a ddatgelir yn nodyn 25, yn cael effaith ar swm y rhwymedigaeth a gariwyd. Yn ogystal mae dull datblygu wedi cael ei ddefnyddio gan yr actiwari sy'n rhagweld canlyniadau o'r prisiad actiwaraid llawn diweddaraf a berfformiwyd ar 31 Mawrth 2022 ac mae'r actiwari wedi defnyddio hwn wrth brisio'r rhwymedigaeth pensiynau ar 31 Gorffennaf 2023. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigurau a geir o'r dull datblygu a phrasiad actiwaraid llawn yn cael effaith ar swm y rhwymedigaeth bensiwn a gariwyd.

2, Grantiau cyrff ariannu

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Grantiau rheolaidd				
Grant rheolaidd Llywodraeth Cymru	29,804	29,804	26,741	26,741
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	38	38	54%	54%
Grantiau Penodol				
Dysgu seiliedig ar waith	8,433	8,433	9,039	9,039
Rhyddhau grantiau cyfalaf Llywodraeth Cymru	2,409	2,409	1,733	1,733
Grantiau eraill Llywodraeth Cymru	7,360	7,360	10,800	10,800
Cyfanswm	48,044	48,044	48,367	48,367

Tabl 2 - Grantiau cyrff ariannu

3, Ffioedd dysgu a chontractau addysg

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Ffioedd addysg oedolion	328	328	335	335
Ffioedd a chontractau prentisiaeth	103	101	95	78
Ffioedd ar gyfer cyrsiau gyda chymorth benthyciad AB	253	253	259	259
Ffioedd ar gyfer cyrsiau gyda chymorth benthyciad AU	987	987	1,107	1,107
Ffioedd myfyrwyr rhyngwladol	522	522	438	438
Cyfanswm ffioedd dysgu	2,193	2,191	2,234	2,217
Contractau addysg	850	850	605	605
Cyfanswm	3,043	3,041	2,839	2,822

Tabl 13 - Ffioedd dysgu a chontractau addysg

4, Grantiau a chontractau eraill

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Gweithgareddau a ariannwyd gan Erasmus a Taith	182	182	102	102
Comisiwn Ewropeaidd	1,120	1,120	2,041	2,041
Grantiau a chontractau eraill	1,273	1,273	645	620
Cyfanswm	2,575	2,575	2,788	2,763

Tabl 14 - Grantiau a chontractau eraill

5, Incwm arall

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Arlwyo a phreswylfeydd	923	923	654	654
Gweithgareddau eraill sy'n creu incwm	129	129	104	104
Incwm o grantiau eraill	349	349	279	279
Grantiau cyfalaf nad ydynt yn grantiau'r Llywodraeth	37	37	37	37
Incwm amrywiol	1,031	1,051	870	870
Cyfanswm	2,469	2,489	1,944	1,944

Tabl 15 - Incwm Arall

6, Incwm buddsoddi

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Incwm buddsoddi arall	-	-	-	-
Llog arall sy'n dderbyniadwy	490	490	11	11
Buddsoddi a llog arall	490	490	11	11
Enillion net ar y cynllun pensiwn (nodyn 24)	-	-	-	-
Cyfanswm	490	490	11	11

Tabl 16 - Incwm buddsoddi

7, Costau staff

Elfen ariannol	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Cyflogau	29,557	29,448	26,872	26,408
Costau nawdd cymdeithasol	2,970	2,948	2,659	2,608
Costau pensiwn eraill	7,070	7,067	9,847	9,836
Costau staff	39,597	39,463	39,378	38,852
Costau ailstrwythuro	164	82	167	132
Cyfanswm	39,761	39,545	39,545	38,984

Tabl 17 - Costau Staff

Costau ailstrwythuro

	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	£000	£000	£000	£000
Costau contractiol	132	50	91	56
Costau nad ydynt yn rhai contractiol	32	32	76	76
Cyfanswm	164	82	167	132

Tabl 17a - Costau ailstrwythuro

Niferoedd Staffio

Cyfrif pennau	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf		Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2023	2022	2022
	Grŵp	Coleg	Grŵp	Coleg
	Nifer.	Nifer.	Nifer.	Nifer.
Staff adrannol sy'n addysgu	617	617	604	598
Staff adrannol nad ydynt yn addysgu	492	490	487	481
Cyfanswm	1,109	1,107	1,091	1,079

Tabl 18 - Niferoedd Staffio

Personél Rheoli Allweddol (Grŵp a Choleg)

Personél rheoli allweddol yw'r bobl hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb ym meysydd cynllunio, llywio a rheoli gweithgareddau'r Grŵp ac fe'u cynrychiolir gan y Grŵp Cynllunio Strategol sy'n cynnwys y Pennaeth, y Cyfarwyddwr Cwricwlwm ac Ansawdd, y Cyfarwyddwr Sgiliau a Datblygu Busnes, y Cyfarwyddwr AD a'r Cyfarwyddwr Cyllid. Mae costau staff yn cynnwys iawndal a dalwyd i bersonél rheoli allweddol am gollu swydd.

Cyfrif pennau	Y flwyddyn ddaeth i ben 31 Gorffennaf	
	2023	2022
	Nifer.	Nifer.
Nifer y personél rheoli allweddol gan gynnwys y Swyddog Cyfrifyddu:	5	5
Cyfanswm	5	5

Tabl 19 - Nifer y personél rheoli allweddol

Mae'r amrywiadau canlynol yn dangos nifer y personél rheoli allweddol a staff ar gyflog uwch a gafodd enillion blynyddol (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ond gan gynnwys buddion mewn nwyddau) yn y Grŵp:

Tabl o fandiau cyflog personél rheoli allweddol a staff eraill ar gyflog uwch (Grŵp)

Grŵp	Personél Rheoli Allweddol		Staff eraill	
	2023 Nifer.	2022 Nifer.	2023 Nifer.	2022 Nifer.
£60,001 i £65,000 y flwyddyn	-	-	0.9	1.5
£65,001 i £70,000 y flwyddyn	-	-	1.0	-
£70,001 i £75,000 y flwyddyn	-	-	1.5	3.0
£75,001 i £80,000 y flwyddyn	-	-	3.0	-
£80,001 i £85,000 y flwyddyn	-	3.0	0.8	1.0
£85,001 i £90,000 y flwyddyn	3.0	-	-	-
£90,001 i £95,000 y flwyddyn	-	-	-	-
£95,001 i £100,000 y flwyddyn	1.0	-	-	-
£100,001 i £105,000 y flwyddyn	-	1.4	-	-
£110,001 i £115,000 y flwyddyn	-	-	-	-
£160,001 i £165,000 y flwyddyn	-	1.0	-	-
